



department for
**culture, media
and sport**

Treftadaeth y Byd ar gyfer y Genedl: Adnabod, Gwarchod a Hyrwyddo ein Treftadaeth y Byd

Papur Ymgynghorol

2 Rhagfyr 2008

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb drwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi'r ymchwil am ragoriaeth, a gwarchod y diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden.

Cynnwys

Pennod 1: Adolygiad Polisi Treftadaeth y Byd	4
Pennod 2: Safleoedd Treftadaeth y Byd – y sefyllfa bresenno	7
Pennod 3: Sefyllfa'r PTB ar enwebiadau i'r dyfodol	17
Pennod 4: Costau a buddion statws Safle Treftadaeth y Byd	20
Pennod 5: Enwebiadau i'r dyfodol ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd	28
Pennod 6: Dynodiadau eraill	36
Pennod 7: Gwarchod, rheoli a hyrwyddo Safleoedd Treftadaeth y Byd	38
Pennod 8: Asesiad Effaith Cydraddoldeb	45
Pennod 9: Y Camau Nesaf a sut i ymateb	46
Atodiad A: Cod Ymarfer ar Ymgynghoriadau	48
Atodiad B: Fformat Cyflwyno Rhestr Cynigion	49
Atodiad C: Canllaw i safleoedd sydd am ymgeisio	51

Pennod 1: Adolygiad Polisi Treftadaeth y Byd

Cyflwyniad

- 1.1 Mae 27 o Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y DU a'i diriogaethau mewn gwledydd tramor. Yn eu plith mae Côr y Cewri a Thŵr Llundain, ynghyd ag ystod eang o safleoedd yn amrywio o ganol Orkney Neolithig i Ynys Henderson yn Ne'r Pasiffig. Maent yn ffurfio rhan o Restr Treftadaeth y Byd llawer mwy eang o 878 o safleoedd treftadaeth diwylliannol a naturiol a gynnwysdir gan UNESCO fel rhai o werth bydeang eithriadol, dan delerau Confensiwn 1972 ynghylch Gwarchod Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd (Confensiwn Treftadaeth y Byd). Wrth ymuno â'r Confensiwn, mae llywodraeth y DU wedi ymrwmo i ymgymryd ag adnabod, gwarchod, diogelu, cyflwyno a throsglwyddo'r lleoedd hynny i genedlaethau'r dyfodol.
- 1.2 A ddylid ceisio ychwanegu safleoedd eraill at y Rhestr? Yn sicr, mae'r diddordeb ar draws y DU mewn enwebu safleoedd newydd ar gynydd a'r nifer sydd yn ymgeisio'n cynyddu bob blwyddyn. Ystyrir bod cael statws Safle Treftadaeth y Byd yn dra dymunol, nid yn unig o ran y bri diamheuol ond hefyd y buddion a ddaw yn ei sgil o ran y cynnydd mewn twristiaeth ac adfywio.
- 1.3 Ond mae agweddau eraill o statws Safle Treftadaeth y Byd, na wyddys llawer amdanynt, sydd yn peri i'r syniad o ymgeisio fod yn llai deniadol i rai safleoedd. Efallai mai'r mwyaf pwysig yw nad gwobr yw'r statws, ond cydnabyddiaeth bod y safle'n ddigon pwysig i ddod dan gyfrifoldeb y gymuned ryngwladol yn ei chyfanrwydd. Daw cyfrifoldebau yn sgil derbyn y fath gynnabyddiaeth - gan gynyddu yn y blynyddoedd diwethaf - i warchod a chynnal y safle a'i gyffiniau i'r safonau uchaf. Gwneir penderfyniadau ynghylch yr hyn sydd yn briodol neu beidio ar bob safle gan randdeiliaid rhyngwladol yn ogystal ag o'r DU. Cafodd safleoedd mewn ardaloedd poblog eu hwynebu'n gyson gan y penderfyniadau anodd i gadw cydbwysedd rhwng cadwraeth a datblygu, ond unwaith y rhoddir statws Treftadaeth y Byd, nid yn eu dwylo hwy'n unig y bydd y fath benderfyniadau, fel y dangoswyd gan ymweliadau UNESCO â Llundain a Lerpwl yn 2006 a Chaerfaddon a Chaeredin eleni.
- 1.4 Wrth i gynydd ddigwydd yn y galw am statws Treftadaeth y Byd aeth y broses o ymgeisio'n fwy cymhleth, a rhoddwyd anogaeth i wledydd megis y DU sydd â chynrychiolaeth dda eisoes ar Restr Treftadaeth y Byd i arafu neu ohirio'u henwebiadau.
- 1.5 Yn 1999 yr edrychwyd diwethaf ar bolisiâu enwebu'r DU. Yng ngoleuni'r pryderon cynyddol am y gynrychiolaeth ar Restr Treftadaeth y Byd a'r newidiadau ers hynny yn y modd y gweithredir y Confensiwn, ymddengys ei bod yn bryd edrych eto ar y costau a'r buddion o gael statws Treftadaeth y Byd, a dwyn y llinynnau hyn ynghyd mewn adolygiad cyffredinol o'n dull o ymdrin â Threftadaeth y Byd o fewn y polisi.

Y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad

Roedd gan yr adolygiad y cylch gorchwyl canlynol:

- Archwilio i ba raddau y mae dull cyfredol y DU o ymdrin â Threftadaeth y Byd yn cefnogi buddion Llywodraeth y DU, llywodraethau Dibynwledydd y Goron a Thiriogaethau Tramor o ran gwarchod a hyrwyddo'u treftadaeth ddiwylliannol a naturiol; eu blaenoriaethau strategol ehangach; a'u nodau rhyngwladol, yn arbennig mewn perthynas ag UNESCO.
- Archwilio'r costau a'r buddion, yr hawliau a'r cyfrifoldebau ddaw yn sgil ennill statws Safle Treftadaeth y Byd, y cydbwysedd sydd rhwng yr elfennau hynny ar hyn o bryd, a'r goblygiadau ar gyfer rheoli, hyrwyddo a chyllido'r fath safleoedd yn y dyfodol.
- Ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i egluro'n well a/neu gryfhau'r gwarchod ar Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- Argymhell polisi ar gynnig enwebiadau ar gyfer derbyn statws Safle Treftadaeth y Byd yn y dyfodol.

Pwy sydd wedi bod ynghlwm wrth hyn a sut

- 1.6 Sefydlodd y DCMS Fwrdd Prosiect a Thîm Prosiect mewnol i reoli'r adolygiad. Sicrhawyd cefnogaeth partneriaid a rhanddeiliaid eraill drwy sefydlu Grŵp Llywio a Chynghori.

Grŵp Llywio

- 1.7 Gwahoddwyd yr adrannau/sefydliadau canlynol i ymuno â'r Grŵp Llywio ar gyfer yr adolygiad:

Cadw
Adran yr Amgylchedd, Gogledd Iwerddon
Treftadaeth Lloegr
Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad
'Historic Scotland'
Y Cydbwyllgor Gwarchod Natur
Treftadaeth Genedlaethol Ynys Manaw
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Adran Weithredol yr Alban
Gwladwriaethau Guernsey
Gwladwriaethau Jersey
Comisiwn Cenedlaethol y Deyrnas Unedig dros UNESCO

- 1.8 Cyfarfu'r Grŵp Llywio ar gyfnodau allweddol drwy gydol yr arolwg.

Y Grŵp Cyngori

- 1.9 Gwahoddwyd yr adrannau/sefydliadau canlynol – pob un yn randdeiliaid yn Nhreftadaeth y Byd – i ymuno â Grŵp Cyngori yn ychwanegol at aelodau'r Grŵp Llywio:
- Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Cronfa Treftadaeth y Loteri
Cymdeithas Tai Hanesyddol
ICOMOS-UK
Pwyllgor Cenedlaethol y DU o IUCN (Undeb Gwarchod y Byd)
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Fforwm Treftadaeth y Byd ar gyfer Awdurdodau Lleol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban
'Natural England'
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio
'VisitBritain'
Y Cyngor Prydeinig
Cydlynwyr Treftadaeth y Byd
- 1.10 Cyfarfu'r Grŵp Cyngori ddwywaith, yn gyntaf i roi gwybodaeth i'r dadansoddi ar gost a budd ac yna i gynnig cyngor ar y casgliadau. Bwydodd Cydlynwyr Treftadaeth y Byd hefyd i'r broses yn dilyn eu cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.
- 1.11 Mae gan nifer o sefydliadau a grwpiau eraill ddiddordeb yn Nhreftadaeth y Byd a hefyd mae o ddiddordeb i'r cyhoedd. Diben y papur hwn felly yw agor y drafodaeth i gynulleidfa ehangach.

Dadansoddi cost a budd

- 1.12 Ym mis Chwefror 2007 gwahoddwyd tendrau am ddadansoddi costau a buddion statws Safle Treftadaeth y Byd gan y DCMS ynghyd â'i phartneriaid cyllido 'Historic Scotland' a Cadw. Dyfarnwyd y contract i PricewaterhouseCoopers ym mis Mai 2007 a chafodd eu hadroddiad terfynol ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2007.

Pennod 2: Safleoedd Treftadaeth y Byd – y sefyllfa bresennol

Beth yw Safleoedd Treftadaeth y Byd?

- 2.1 Ymunodd y DU â Chonfensiwn Treftadaeth y Byd UNESCO yn 1984. Sefydlwyd Rhestr Treftadaeth y Byd gan y Confensiwn fel modd i gydnabod bod rhai lleoedd, naturiol a diwylliannol, yn ddigon pwysig i'r gymuned ryngwladol gyfan fod yn gyfrifol amdanynt. Drwy ymuno â'r Confensiwn, mae gwladwriaethau yn addo gofalu am y Safleoedd Treftadaeth y Byd sydd ar eu tiriogaeth fel rhan o'r gwarchod ar eu treftadaeth genedlaethol, yn ogystal â gwarchod a diogelu eu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol gyfan.
- 2.2 Goruchwylir y Confensiwn gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO sydd yn rhynglywodraethol. Rhoddir cyngor i'r Pwyllgor gan dri chorff proffesiynol rhyngwladol. ICOMOS (Y Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd), sefydliad anllywodraethol (NGO) sydd yn rhoi cyngor ar safleoedd diwylliannol. ICCROM (Canolfan Ryngwladol dros Gadw ac Adfer Eiddo Diwylliannol), sefydliad llywodraethol rhyngwladol (IGO), y mae'r DU yn aelod ohono, sydd yn cynnig cyngor yn bennaf ar hyfforddi a datblygu'r medr i gynnal cadwraeth ar safleoedd diwylliannol, tra mae IUCN (Undeb Cadwraeth y Byd), sydd yn rhannol IGO/NGO, yn cynnig cyngor ar safleoedd naturiol. Mae gan ICOMOS ac IUCN bwyllgorau cenedlaethol yn y DU.
- 2.3 Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi Canllawiau Gweithredol ar Weithrediadau Confensiwn Treftadaeth y Byd (<http://whc.unesco.org/en/guidelines/>), sydd yn gosod dulliau o arysgrifio safleoedd ar Restr Treftadaeth y Byd, yn manylu ar y meini prawf wrth farnu'r hyn sydd o 'werth byd-eang eithriadol' a chynnig arweiniad ar gyflwyno enwebiadau.
- 2.4 Gweithredir cyfrifoldebau Llywodraeth y DU ar ran y Confensiwn, a hynny'n cynnwys enwebu safleoedd ar gyfer ymgeisio am statws Treftadaeth y Byd, gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Dylid dynodi enwebiadau unigol ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a'u cyflwyno fel enwebiadau'r DU gan Brif Weinidogion y gwledydd hynny drwy'r DCMS. Yr Ysgrifennydd Tramor sydd yn gyfrifol am ddynodi a chyflwyno enwebiadau dros Dirigaethau Tramor a'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder sydd yn gyfrifol am enwebiadau o Ddibynwledydd y Goron, drwy'r DCMS.
- 2.5 Yn Lloegr, bydd y DCMS yn cydweithio'n agos â Threftadaeth Lloegr, ei ymgynghorydd statudol ar sut i weithredu'r Confensiwn. Bydd y DCMS hefyd yn ymroi

i gydweithio â phartneriaid eraill ar Dreftadaeth y Byd. Bydd cyrff cyhoeddus yn cynnwys adrannau'r llywodraeth, y gweinyddiaethau a ddatganolwyd, 'Historic Scotland', Cadw, Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon, Dibynwledydd y Goron a Chomisiwn Cenedlaethol y DU dros UNESCO. Bydd sefydliadau NGO yn cynnwys ICOMOS UK a Fforwm Treftadaeth y Byd ar gyfer Awdurdodau Lleol (LAWHF).

Pa safleoedd sy'n gymwys?

- 2.6 Gwahoddir Pleidiau Gwladwriaethol i gyflwyno eiddo o'u Rhestrau Cynigion o safleoedd ar gyfer enwebu i'r dyfodol, yr ystyrir eu bod o 'Werth Byd-eang Eithriadol' i'w harysgrifio ar Restr Treftadaeth y Byd. Golyga Gwerth Byd-eang Eithriadol arwyddocâd diwylliannol a/neu naturiol sydd mor eithriadol fel ei fod yn trosgynnu ffiniau cenedlaethol ac o werth cyffredinol i genedlaethau'r presennol a dyfodol dynoliaeth gyfan.
- 2.7 Nid diben y Confensiwn yw sicrhau gwarchod *pob* eiddo o ddiddordeb mawr, o bwysigrwydd neu o werth, dim ond ar gyfer rhestr ddethol o'r mwyaf eithriadol o'r rhain o safbwynt rhyngwladol. Golyga hyn na fydd eiddo o bwysigrwydd cenedlaethol na hyd yn oed o bwysigrwydd rhyngwladol yn cael ei arysgrifio'n awtomatig ar Restr Treftadaeth y Byd.

Gwerth Byd-eang Eithriadol

Bydd Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn ystyried bod Gwerth Byd-eang Eithriadol i eiddo os bydd yn cwrdd ag un neu fwy o'r meini prawf canlynol:

- (i) yn cynrychioli campwaith o athrylith greadigol gan fodau dynol;
- (ii) yn arddangos cydgyfnewid pwysig mewn gwerthoedd dynol, dros rychwant o amser neu o fewn rhan ddiwylliannol o'r byd, ar ddatblygiadau mewn pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau coffa, cynllunio tref neu gynllun tirlun;
- (iii) yn dystiolaeth unigryw, neu eithriadol o leiaf, o draddodiad diwylliannol neu o wareiddiad sydd yn fyw neu wedi diflannu;
- (iv) yn enghraifft eithriadol o fath o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol, neu dirlun sydd yn dangos cam(au) arwyddocaol yn hanes dynoliaeth;
- (v) yn enghraifft eithriadol o anheddiad dynol traddodiadol, defnydd tir, neu ddefnydd môr sydd yn cynrychioli diwylliant (neu ddiwylliannau) neu ryngweithiad dyn gyda'r amgylchedd, yn enwedig pan fydd wedi ei niweidio gan effaith newid anwrthdroadwy;
- (vi) yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n sylweddol â digwyddiadau neu draddodiadau byw, â syniadau, neu â chredoau, â gweithiau celfyddydol neu lenyddol o arwyddocâd byd-eang eithriadol. (Ym marn y Pwyllgor dylid defnyddio'r maen prawf hwn os yn bosib ar y cyd â meini prawf eraill);

- (vii) yn cynnwys ffenomenau naturiol o'r radd uchaf neu fannau o harddwch naturiol eithriadol a phwysigrwydd esthetig;
- (viii) yn enghreifftiau eithriadol o brif gyfnodau yn hanes y ddaear, gan gynnwys cofnod o fywyd, prosesau daearegol parhaus arwyddocaol yn natblygiad tirffurfiau, neu nodweddion geomorffig neu ffisiographig arwyddocaol;
- (ix) yn enghreifftiau eithriadol o brosesau ecolegol a biolegol arwyddocaol yn esblygiad a datblygiad ecosystemau daearol, dŵr croyw, arfordirol a morol, a chymunedau o blanhigion ac anifeiliaid;
- (x) yn cynnwys y cynefinoedd naturiol mwyaf pwysig ac arwyddocaol am gadw amrywiaeth biolegol yn y fan a'r lle, gan gynnwys y rheiny sydd â rhywogaethau o werth byd-eang eithriadol dan fygythiad o safbwynt gwyddoniaeth neu gadwraeth.

- 2.8 Mae pwyslais ar yr angen am **astudiaethau cymharol** o safleoedd (yn rhyngwladol yn ogystal ag yn genedlaethol) er mwyn dethol safleoedd o bwysigrwydd byd-eang, yn enwedig pan fydd safle'n disgyn i gategori sydd eisoes wedi'i gynrychioli'n dda.
- 2.9 Mae **gwarchodaeth, rheolaeth, dilysrwydd a chyfanrwydd** eiddo hefyd yn ystyriaethau pwysig wrth ddewis i'w harysgrifio ar Restr Treftadaeth y Byd. Esbonir y gofynion hyn yng Nghanelawiau Gweithredol 2008 - (<http://whc.unesco.org/archive/opguide08-en.pdf>) ar Weithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd. Bydd Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn gweld yr agweddau hyn ar safle fel rhan o'i werth byd-eang cyffredinol.

Rhoddir gwybodaeth bellach ar flaenoriaethau Pwyllgor Treftadaeth y Byd ym Mhennod 3.

Ble mae ein safleoedd?

Mae 27 o safleoedd Treftadaeth y Byd ar hyn o bryd yn y DU:

- Eglwys Gadeiriol a Chastell Durham (arysgrifwyd 1986; ymestynnwyd 2008)
- Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd (1986)
- Parc Brenhinol Studley gan gynnwys adfeilion Abaty Fountains (1986)
- St Kilda (1986, ymestynnwyd yn 2004 a 2005) (naturiol a diwylliannol)
- Giant's Causeway ac arfordir Causeway (1986) (safle naturiol)
- Ceunant Ironbridge (1986)
- Côr y Cewri, Avebury a Safleoedd Cysylltiedig (1986)
- Palas a Pharc Blenheim (1987)
- Palas Westminster, Abaty Westminster ac Eglwys St Margaret (1987, ymestynnwyd 2008)
- Dinas Caerfaddon (1987)

- Ffiniau'r Ymerodraeth Rufeinig (safle trawsgenedlaethol yn ymgorffori Mur Hadrian (1987), y Raetian Limes Almaenig Uchaf (2005) a Mur Antonine (2008))
- Tŵr Llundain (1988)
- Eglwys Gadeiriol Canterbury, Abaty Sant Augustin ac Eglwys St Martin (1988)
- Ynys Henderson, De'r Môr Tawel (1988) (safle naturiol)
- Trefi Hen a Newydd Caeredin (1995)
- Ynysoedd Gough ac Anhygyrch, De'r Môr Tawel (1995, ymestynnwyd 2004) (safle naturiol)
- Greenwich Forwrol (1997)
- Canol Orkney Neolithig (1999)
- Tref Hanesyddol Sant Siôr a Ffiniau Cysylltiedig Bermuda (2000)
- Tirlun Diwydiannol Blaenafon (2000)
- Arfordir Dorset a Dwyrain Dyfnaint (2001) (safle naturiol)
- Melinau Dyffryn Derwent (2001)
- Lanarc Newydd (2001)
- Saltaire (2001)
- Gerddi Botanig Brenhinol, Kew (2003)
- Dinas Fasnachol Arforol Lerpwl (2004)
- Tirwedd Mwyngloddio Cernyw a Gorllewin Dyfnaint (2006)

Enwebiadau i'r dyfodol

Yn ogystal, rydym eisoes wedi cyhoeddi ein henwebiadau arfaethedig am y pedair blynedd nesaf fel a ganlyn:

- Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte – enwebwyd ym mis Ionawr 2008 ar gyfer ystyriaeth ym mis Gorffennaf 2009;
- Labordy Tirlun Darwin – i'w ailgyflwyno ym mis Ionawr 2009 ar gyfer ystyriaeth ym mis Gorffennaf 2010;
- Mynachlog Gefeilliol Wearmouth a Jarrow – i'w enwebu ym mis Ionawr 2010 ar gyfer ystyriaeth ym mis Gorffennaf 2011.

Sut y cafodd ein safleoedd eu hadnabod a'u dynodi?

- 2.10 Bydd Pwyllgor Treftadaeth y Byd am i bob gwladwriaeth gyflwyno Rhestr o Gynigion arfaethedig sydd yn debygol o gael eu rhoi gerbron dros gyfnod o bum i ddeng mlynedd. Ni roddir ystyriaeth i enwebiadau ar gyfer Rhestr Treftadaeth y Byd oni bai bod yr eiddo enwebedig eisoes wedi'i gynnwys ar Restr Cynigion Plaid y Wladwriaeth. Anogir Pleidiau Gwladwriaethol i ailedrych ar eu Rhestrau o Gynigion a'u hail gyflwyno bob deng mlynedd.
- 2.11 Deillia Rhestr Gynigion gyfredol y DU, a gyhoeddwyd yn 1999, - â deg safle ohoni wedi'u harysgrifio eisoes - o adolygiad a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 1997. Derbyniodd gyngor ar safleoedd yn Lloegr, y rhai o Dirigaethau Tramor a Dibynwledydd y Goron, gan grŵp o arbenigwyr, a sefydlwyd yn ôl ei ddymuniad gan Dreftadaeth Lloegr, ymgynghorydd

statudol y Llywodraeth yn Lloegr ar yr amgylchedd adeiledig ac archeolegol. Gwnaeth ei gydweithwyr yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon eu trefniadau ymgynghori eu hunain. Fodd bynnag bu cydweithio agos rhwng pawb oedd yn gysylltiedig, a hynny'n arwain at gynhyrchu cynigion integredig ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

- 2.12 Cafodd safleoedd a argymhellwyd eu dethol i gynrychioli themâu a thopigau yr oedd y DU yn gyfan neu'n rhannol wedi gwneud cyfraniadau eithriadol ynddynt i dreftadaeth y byd. Bu'r safleoedd hyn yn destun ymgynghori cyhoeddus eang yn ystod hanner olaf 1998. Yn dilyn ystyried yr ymatebion, ym mis Ebrill 1999 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol enwau'r safleoedd o fewn y DU a'i Thiriogaethau Tramor fyddai'n ffurfio'r Rhestr Cynigion newydd.

Sut fydd safleoedd o'r Rhestr Cynigion yn mynd ar Restr Treftadaeth y Byd?

- 2.13 Bydd y DCMS mewn ymgynghoriad â'r asiantaethau treftadaeth, y Gweinyddiaethau a ddatganolwyd, y Tiriogaethau Tramor a Dibynwledydd y Goron yn monitro'n ofalus y cynnydd ar ddatblygiad cynigion enwebu ar gyfer safleoedd sydd ar Restr Gynigion gyfredol y DU. Ar sail asesiad o gryfder y cynigion a'u parodrwydd posib ar gyfer eu cyflwyno i UNESCO, ac ar gyngor Treftadaeth Lloegr, ymgynghorydd statudol y Llywodraeth ar faterion Treftadaeth y Byd, gwneir penderfyniadau ar drefn enwebiadau i'r dyfodol gan Weinidogion. Bydd enwebu safle mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar baratoad y ddogfen enwebu a bod y cynllun rheoli'n ddigon datblygedig i gwrdd â dyddiad cau UNESCO ar gyfer cyflwyno, a gall fod yn amodol i newid os bydd Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn cyfeirio unrhyw enwebiad blaenorol o'r DU yn ôl atom ar gyfer ystyriaeth bellach.
- 2.14 Cyn 1997, roedd pob enwebiad yn cael ei baratoi gan yr asiantaeth dreftadaeth ddiwylliannol neu naturiol yn y wlad honno. Ers 1999 cafodd enwebiadau yn Lloegr a Chymru eu paratoi gan bartneriaethau lleol, fel arfer yn cael eu harwain gan yr awdurdod lleol perthnasol a hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o berchnogion y safleoedd ac asiantaethau'r llywodraeth. Cefnogir y partneriaethau hyn gan arbenigedd a pheth cyllid gan yr asiantaeth dreftadaeth naturiol neu ddiwylliannol genedlaethol perthnasol.
- 2.15 Yn dilyn cyflwyno enwebiad, bydd cyfnod o 18 mis o werthuso gan un o gyrff ymgynghori arbenigol UNESCO (IUCN ar gyfer enwebiadau naturiol ac ICOMOS ar gyfer y diwylliannol) cyn y gwneir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor Treftadaeth y Byd rhynglywodraethol yn eu cyfarfod blynyddol dilynol. Dim ond y Pwyllgor all benderfynu ar arysgrifio i'r Rhestr Treftadaeth y Byd. Gall y broses o baratoi'r ddogfen enwebu drwy'r cyfnodau asesu amrywiol, yn genedlaethol a rhyngwladol, hyd at y penderfyniad terfynol gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd, gymryd o leiaf dair blynedd a gall y rhan fwyaf o enwebiadau gymryd mwy na hyn.

Pa safleoedd sydd ar ôl ar ein Rhestr Cynigion?

2.16 Y safleoedd sy'n aros ar ein Rhestr Cynigion 1999 yw:

- Dociau Morwrol Chatham
- Ardal y Llynnoedd
- Labordy Tirlun Darwin
- Mynachlogydd Gefeilliol Wearmouth a Jarrow
- Traphont Ddŵr Pontcysyllte
- Manceinion, Trafford a Salford
- Y 'New Forest'
- Rheilffordd y Great Western
- Stratford Shakespeare
- Y Wash ac Arfordir Gogledd Norfolk
- Mynyddoedd y Cairngorm
- Y 'Flow Country'
- Pont Reilffordd y Forth
- Gerddi Mount Stewart
- Ceudwll Fountains, Anguilla
- Caer Gibraltar

2.17 Tra bydd rhai o'r safleoedd yn datblygu eu cynigion yn weithredol, ni fydd pob safle ar y Rhestr Cynigion yn parhau i ddymuno mynd ymlaen i enwebu.

Sut ydym ni'n edrych ar ôl ein Safleoedd Treftadaeth y Byd?

Gwarchodaeth

- 2.18 Caiff Safleoedd Treftadaeth y Byd eu gwarchod yn bennaf drwy fframwaith cynllunio'r DU a bydd Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cael ystyriaeth berthnasol allweddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. O fis Hydref 2008 caiff Safleoedd Treftadaeth y Byd eu cynnwys fel Tir Erthygl 1 (5) dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995.
- 2.19 Yn Lloegr, caiff Safleoedd Treftadaeth y Byd eu gwarchod dan delerau Datganiad Polisi Cynllunio 1 (PPS1), Nodyn Canllaw Polisi Cynllunio 15 (PPG 15) a'r polisïau a fabwysiedir mewn Strategaethau Gofodol Rhanbarthol (RSS) a chynlluniau datblygu awdurdodau lleol.
- 2.20 Yn yr Alban Polisi Cynllunio'r Alban 23: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol (2008), yw'r canllaw cynllunio cyfatebol yng nghyswllt treftadaeth adeiledig a diwylliannol tra bydd NPPG 14 Treftadaeth Naturiol (dan adolygiad ar hyn o bryd) yn gosod y canllaw perthnasol ar gyfer yr amgylchfyd naturiol.
- 2.21 Yng Nghymru, bydd Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96, Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol yn rhoi canllaw cyfatebol ar gyfer gwarchod treftadaeth adeiledig a diwylliannol.
- 2.22 Yng Ngogledd Iwerddon mae Datganiad Polisi Cynllunio 6 (PPS6), Cynllunio, Archaeoleg a'r Amgylchedd Adeiledig yn cynnwys Treftadaeth y Byd.
- 2.23 Ar hyn o bryd ar draws y DU caiff adeiladau hanesyddol rhestredig a henebion cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth eu diogelu gan y gyfraith, ond nid oes rheoliadau

statudol ychwanegol mewn grym yn dilyn arysgrifio safle ar Restr Treftadaeth y Byd Bydd arysgrifiad, fodd bynnag, yn pwysleisio pwysigrwydd rhyngwladol eithriadol y safle fel deunydd allweddol i'w ystyried gan bob awdurdod cynllunio lleol yn y DU wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio a chaniatâd i adeilad rhestredig, a chan Weinidogion wrth benderfynu ar achosion aeth i apêl neu'n dilyn galw i mewn.

- 2.24 Rhaid i bob awdurdod rhanbarthol a lleol cysylltiedig, wrth gymryd i ystyriaeth ddynodiad statws Safle Treftadaeth y Byd a dynodiadau statudol perthnasol eraill, ffurfio polisiau cynllunio penodol i warchod y safleoedd hyn a chynnwys y polisiau hyn yn eu strategaethau gofodol a'u cynlluniau datblygu. Dylai'r fath bolisiau adlewyrchu'r ffaith bod y safleoedd hyn wedi'u hadnabod a'u dynodi am eu Gwerth Byd-eang Eithriadol, a dylent roi cryn bwyslais ar yr angen i'w diogelu. Mae'n dilyn felly y dylid archwilio cynigion datblygu am yr effaith tebygol ar y safle neu ei leoliad yn y tymor hir. Bydd cynigion datblygu sylweddol angen asesiad effaith amgylcheddol ffurfiol yn gyffredinol.
- 2.25 Bydd pob un o Ddibynwledydd y Goron a Thiriogaethau Tramor yn gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cynllunio gofodol a diogelu treftadaeth naturiol a diwylliannol. Ar Ynys Manaw, er enghraifft, nid oes unrhyw Safleoedd Treftadaeth y Byd ar hyn o bryd, ond mae safleoedd sydd dan ystyriaeth fel ymgeiswyr posib am y gydnabyddiaeth hon wedi eu cydnabod yn eglur yn y dogfennau cynllunio gofodol lleol.
- 2.26 Caiff cynlluniau i wella'r warchodaeth ar Safleoedd Treftadaeth y Byd eu trafod ar wahân ym Mhennod 7.

Rheolaeth

- 2.27 Bydd y DCMS yn cynrychioli Plaid Gwladwriaeth y DU i weithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd, a bydd yn cadeirio Grŵp Rhyngadrannol ar Dreftadaeth y Byd sydd yn dwyn ynghyd ei brif bartneriaid ac ymgynghorwyr. Mae trefniadau gwahanol ar gyfer rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn ôl y trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer rheoli treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn fwy cyffredinol.

Cyrff ymgynghorol

- 2.28 Bydd Llywodraeth y DU yn derbyn cyngor ar faterion Treftadaeth y Byd gan nifer o gyrff swyddogol.
- 2.29 Treftadaeth Lloegr yw ymgynghorydd statudol y DCMS ar faterion yn ymwneud â'r dreftadaeth adeiledig yn Lloegr a hefyd mae'n cynnig cyngor ar agweddau polisi Confensiwn Treftadaeth y Byd. Bydd Cadw, 'Historic Scotland' a Gwasanaeth Amgylchedd a Threftadaeth Gogledd Iwerddon yn rhoi cyngor i'w llywodraethau eu hunain, tra bod gan Ddibynwledydd y Goron a Thiriogaethau Tramor drefniadau sydd yn amrywio.
- 2.30 Sefydliad cymdeithas sifil annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth EM yn 2004 yw Comisiwn Cenedlaethol y DU dros UNESCO, fel canolbwynt yn y DU ar gyfer polisiau'n ymwneud ag UNESCO. Mae wrthi'n sefydlu rôl mewn materion treftadaeth y Byd, gan ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o Dreftadaeth y Byd mewn cymunedau ac ysgolion.

- 2.31 Bydd y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yn rhoi cyngor i bob rhan o'r DU a'i Thiriogaethau Tramor ar faterion sydd yn effeithio ar dreftadaeth naturiol, tra bod pob gweinyddiaeth yn galw am gyngor ei chorff treftadaeth naturiol cenedlaethol.
- 2.32 Gall y Llywodraeth a'i asiantaethau hefyd alw ar wasanaethau'r NGO. Bydd Fforwm Treftadaeth y Byd ar gyfer Awdurdodau Lleol (LAWHF) yn cynorthwyo awdurdodau lleol i chwarae eu rhan i warchod, cadw a chyflwyno Safleoedd Treftadaeth y Byd y DU. Ariennir cangen y DU o'r Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd, ICOMOS UK, yn rhannol gan Dreftadaeth Lloegr, Cadw a 'Historic Scotland' i roi cyngor ar faterion Treftadaeth y Byd megis datblygiad cynhwysedd a gosod safonol. Bydd ICOMOS UK yn cydlynu fforwm rheolaidd ar gyfer Cydlynwyr Treftadaeth y Byd yn y DU i rannu arfer gorau.

Cynlluniau rheoli

- 2.33. Mae gan bob Safle Treftadaeth y Byd y DU gynlluniau rheoli i ddangos sut y bydd eu Gwerth Byd-eang Eithriadol yn cael ei gadw. Bydd y cynlluniau hynny yn cynorthwyo i sicrhau cadwraeth y safle drwy sefydlu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau. Bydd y broses o ddatblygu'r cynllun rheoli'n dwyn ynghyd yr holl randdeiliaid allweddol i gytuno ar weledigaeth gyffredin ar ddyfodol y safle. Fel canlyniad, bydd cysylltiadau gweithiol yn cael eu hatgyfnerthu a phrosiectau newydd yn ymddangos.

Adrodd cyfnodol

- 2.34 Rhaid i lywodraethau adrodd i UNESCO bob chwe blynedd ar gyflwr cadwraeth Safleoedd Treftadaeth y Byd ar eu tiriogaeth. Bydd Pwyllgor Treftadaeth y Byd yna'n penderfynu a oes angen mesurau i ddatrys unrhyw broblemau sy'n ailgodi. Cyflwynodd y DCMS Adroddiad Cyfnodol y tro diweddaraf mewn dwy ran ym mis Rhagfyr 2004 a mis Rhagfyr 2005. Ers hynny, bu llawer o waith dilynol gan gynnwys paratoi Datganiadau Arwyddocâd byr a newidiadau ffiniol dibwys ar gyfer nifer o safleoedd.

Hysbysu a Monitro Adweithiol

- 2.35 Rhaid i lywodraethau hysbysu Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO o unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol allai effeithio ar Safle Treftadaeth y Byd neu ei leoliad. Gall trydydd partion hefyd gysylltu'n uniongyrchol â Chanolfan Treftadaeth y Byd UNESCO. Yn dilyn ystyried ac ymgynghori â llywodraethau cenedlaethol a'u Cyrff Ymgynghorol, gall Canolfan Treftadaeth y Byd lunio Adroddiad Cyflwr Cadwraeth i gyfarfod blynyddol Pwyllgor Treftadaeth y Byd rhynglywodraethol UNESCO.
- 2.36 Gall y Pwyllgor, mewn achosion difrifol, gomisiynu adroddiadau pellach, gan ymweld neu beidio ymweld â'r safle cysylltiedig. Gall methiant i fodloni'r Pwyllgor TB ar y materion hyn arwain at roi'r safle ar Restr Treftadaeth y Byd Mewn Perygl gydag amodau ar gyfer gwelliant ynghlwm. Os bydd y Pwyllgor yn y diwedd yn penderfynu bod gwerth byd-eang eithriadol y safle yr arysgrifwyd ef o'i herwydd wedi'i golli, mae'n bosib y byddai'r safle'n cael ei dynnu oddi ar y Rhestr.

Cyllido

- 2.37 Bydd y DU yn cyfrannu tua £130,000 i Gronfa Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn flynyddol. Gall Pleidiau Gwladwriaeth wneud cais i Bwyllgor Treftadaeth y Byd am gymorth rhyngwladol o'r Gronfa os na ellir sicrhau adnoddau digonol ar lefel genedlaethol. Yn ymarferol, fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i geisiadau am gymorth i safleoedd fydd ar y Rhestr Treftadaeth y Byd Mewn Perygl ac i geisiadau gan wledydd datblygol ac economïau incwm isel.
- 2.38 Yn yr Alban mae canol Orkney Neolithig yng ngofal Gweinidogion yr Alban, mae Cyngor Dinas Caeredin a chronfa 'Historic Scotland' yn cyllido Treftadaeth y Byd Caeredin ac mae'r Asiantaeth yn cyllido cydlynwyr dros Lanarc newydd a Mur Antonine. Yng ngweddill y DU nid yw'r llywodraeth yn dynodi cyllid penodol sydd ar gael i gadwraeth ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n cael eu hariannu gan gyllidebau arferol y llywodraeth sydd ar gael am gadwraeth.
- 2.39 Bydd y rhan fwyaf o gostau cynnal a chadw a rheoli ar ysgwyddau perchnogion y safleoedd, y rhan fwyaf ohonynt yn breifat yn y safleoedd trefol, ond hefyd yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol, llywodraeth leol a chenedlaethol a'i asiantaethau, gan ddefnyddio'r ffrydiau ariannu arferol.
- 2.40 Cwrddir â chostau cyfalaf cadwraeth neu ddarparu cyfleusterau o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys llywodraeth leol a chenedlaethol, Cronfa Treftadaeth y Loteri, cronfeydd adfywio economaidd, gan gynnwys yr Undeb Ewropeaidd, cyllid sydd ar gael o gynlluniau agri-amgylcheddol a'r sector preifat. Mae dros £268 miliwn o arian Loteri wedi'i ddyrannu i Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y DU ers 1994. Yn fwy diweddar mae Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol wedi chwarae rhan arwyddocaol o ran ariannu mewn rhai achosion, fel arfer yn ariannu gweithgareddau ac astudiaethau annibynnol.

Adeiladu ymwybyddiaeth ac addysg

- 2.41 Bydd Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn annog a chefnogi datblygu deunydd addysgol, gweithgareddau a rhaglenni. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth, mewn cydweithrediad â sector addysg UNESCO a phartneriaid eraill, yn cynhyrchu a chyhoeddi Pecyn Adnoddau Addysgol Treftadaeth y Byd, 'Treftadaeth y Byd mewn Dwylo Ifanc' i'w ddefnyddio mewn ysgolion uwchradd ledled y byd. Anogir Pleidiau Gwladwriaethau i ddatblygu gweithgareddau addysgol cysylltiedig â Threftadaeth y Byd gydag ysgolion, prifysgolion, amgueddfeydd ac awdurdodau addysg lleol a chenedlaethol yn cyfranogi, pryd bynnag y bydd hynny'n bosib.
- 2.42 Mae'r Pwyllgor yn pwysleisio nad i blant ysgol yn unig y mae addysg, a dylai cyfleoedd i wella ar wybodaeth o hanes ac arwyddocâd Safleoedd Treftadaeth y Byd fod yn agored i bawb.
- 2.43 Yn y DU nid yw Safleoedd Treftadaeth y Byd wedi'u cynnwys yn benodol o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol, ond mae gan y rhan fwyaf o safleoedd ddeunydd addysgol a rhaglenni allanol. Mae rhai safleoedd wedi rhedeg rhaglenni gydag ysgolion lleol.
- 2.44 Nid oes strategaeth ar y cyd i adeiladu ymwybyddiaeth o Safleoedd Treftadaeth y Byd. Mae gan safleoedd unigol fentrau lleol.
- 2.45 Y brif ffynhonnell wybodaeth ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yw gwefan Canolfan Treftadaeth y Byd UNESCO (whc.unesco.org). Dosberthir gwybodaeth am safleoedd

yn y DU a thiriogaethau tramor rhwng nifer o wefannau gan gynnwys rhai'r DCMS, Treftadaeth Lloegr, 'Visit Britain', 'Historic Scotland', Cadw, Gwasanaeth Amgylchedd a Threftadaeth Gogledd Iwerddon, Comisiwn Cenedlaethol y DU dros UNESCO, ICOMOS UK a Fforwm Treftadaeth y Byd ar gyfer Awdurdodau Lleol. Mae'r DCMS wedi sefydlu Portal Treftadaeth y Byd yn <http://www.ukworldheritage.org.uk> sydd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a chysylltiadau â gwefannau eraill.

A ddylem ni ddynodi mwy o Safleoedd Treftadaeth y Byd?

- 2.46 Gyda 27 safle ar Restr Treftadaeth y Byd mae'r DU yn gyd-seithfed ar y rhestr o genhedloedd sydd â chynrychiolaeth dda o ran nifer safleoedd. Er iddi ddod yn amser i ni adolygu ein Rhestr Cynigion ac adnabod a dynodi rhai safleoedd newydd o bosib, dylem yn gyntaf ystyried os yw'n angenrheidiol neu o werth dal ati i ychwanegu mwy.
- 2.47 I'n cynorthwyo i ateb y cwestiwn hwn rydym wedi archwilio sefyllfa Pwyllgor Treftadaeth y Byd a'i ymgynghorwyr; canfyddiadau astudiaeth annibynnol a gomisiynwyd gennym i gostau a buddion statws Safle Treftadaeth y Byd; a chyngor ystod o randdeiliaid sydd â diddordeb yn Nhreftadaeth y Byd. Traethir ar y canfyddiadau hyn yn y penodau canlynol.

Pennod 3: Sefyllfa Pwyllgor Treftadaeth y Byd ar enwebiadau i'r dyfodol

- 3.1 Rydym angen sicrhau bod dealltwriaeth eang ymhlith safleoedd sy'n cynnig, am natur Rhestr Treftadaeth y Byd, y rhesymau am ei sefydlu a'r ffactorau y bydd Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn eu hystyried wrth benderfynu pa eiddo fydd yn y diwedd yn cael eu harysgrifio. Gall y rhif cynyddol a natur y safleoedd sy'n cael eu derbyn i fod ar y Rhestr olygu ei bod yn ymddangos yn haws ennill statws STB, ond mewn gwirionedd y gwrthwyneb sy'n wir.
- 3.2 Yn gyfredol mae 878 o Safleoedd Treftadaeth y Byd ar hyd ac ar led tiriogaethau'r 145 o'r 185 o wladwriaethau sy'n perthyn i Gonfensiwn Treftadaeth y Byd. Golyga hyn nad oes gan 40 aelod wladwriaeth Safleoedd Treftadaeth y Byd. I'r pegwn arall, mae gan 5 gwlad Ewropeaidd 176 o Safleoedd Treftadaeth y Byd rhyngddynt (Yr Eidal 43; Sbaen 40, Yr Almaen 33; Ffrainc 33: y DU 27), tua 20% o'r cyfanswm. O'u rhoi ynghyd, mae 435 o'r 878 o Safleoedd Treftadaeth y Byd yn Ewrop.
- 3.3 Bu'r anghydbwysedd daearyddol hwn yn fater o bryder i Bwyllgor Treftadaeth y Byd bron ers ei sefydlu. Bu'r Pwyllgor hefyd yn pryderu am yr anghydbwysedd rhwng safleoedd naturiol (174) a diwylliannol (679) (mae'r 25 safle sydd ar ôl wedi eu harysgrifio dan feini prawf y ddau - naturiol a diwylliannol.) Mae anghydbwysedd amlwg hefyd yn y mathau o eiddo diwylliannol a arysgrifwyd. Mor bell yn ôl â 1993, canfuwyd mewn astudiaeth gan ICOMOS bod Ewrop, trefi hanesyddol a henebion crefyddol, Cristnogaeth, cyfnodau hanesyddol, a phensaernïaeth 'elitaidd' (i'w gymharu â'r gwerinol) yn cael eu gorgynrychioli ar Restr Treftadaeth y Byd, tra bod pob diwylliant byw, ac yn arbennig diwylliannau traddodiadol, yn cael eu tangynrychioli (<http://whc.unesco.org/en/globalstrategy/>) .
- 3.4 Nid yw'r anghydbwyseddau hyn wedi eu cywiro ers hynny, ar waethaf mabwysiadu Strategaeth Fyd-eang i gael Rhestr Treftadaeth y Byd Cytbwys, Cynrychioliadol a Chredadwy yn 1994 gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd. Wrth fabwysiadu'r Strategaeth Fyd-eang, roedd Pwyllgor Treftadaeth y Byd am ymestyn y diffiniad o Dreftadaeth y Byd a'i wella i adlewyrchu sbectrwm llawn trysorau diwylliannol a naturiol ein byd, a darparu fframwaith cynhwysfawr a methodoleg weithredol i weithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd.
- 3.5 Ymhlith y pwyntiau gweithredu yn y strategaeth oedd dynodi rhai themâu fel rhai â photensial uchel i lenwi bylchau mewn cynrychiolaeth. Dylid ystyried y rhain yn eu cyd-destun anthropolegol eang drwy amser:

CYDFODOLAETH DYN GYDA'R TIR

- Symudiad pobl (nomadiaeth, ymfudiad)
- Gwladychiad/Anheddiad
- Moddau cynhaliaeth

- Esblygiad technolegol

BODAU DYNOL MEWN CYMDEITHAS

- Rhyngweithiad dynol
- Cydfodolaeth ddiwylliannol
- Yr ysbrydol a mynegiant creadigol.

- 3.6 Cymerodd Rhestr Cynigion y DU hyn i ystyriaeth wrth ddethol themâu ar gyfer enwebiadau'r DU i'r dyfodol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddiwydiannaeth a dylanwad byd-eang y DU.
- 3.7 Ers hynny, mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd wedi comisiynu'r Cyrff Ymgynghori (ICOMOS ac IUCN) i gynnal astudiaethau pellach, a gwblhawyd yn 2005 a 2004 yn ôl eu trefn. Nid yw astudiaeth ICOMOS sy'n ymwneud â safleoedd diwylliannol, yn argymhell themâu penodol, ond mae ynddo ddadansoddiad cynhwysfawr o ba fathau o dreftadaeth ddiwylliannol sydd, a heb gael eu cynrychioli ar Restr Treftadaeth y Byd. Dylai unrhyw un sy'n ystyried cynnig safle i'w gynnwys ar Restr Cynigion newydd y DU gadw hyn mewn cof.
http://www.international.icomos.org/world_heritage/whlgaps.htm.
- 3.8 Mae astudiaeth IUCN (http://cmsdata.iucn.org/downloads/ouv2006_english.pdf), ar safleoedd naturiol yn gallu bod yn fwy penodol ac yn argymhell y dylid rhoi blaenoriaeth i gynefinoedd daearol a morol o fewn biomau Glaswelltir Trofannol/Savanna, Systemau Llynnoedd, Systemau Tundra a Phegynol, Glaswelltiroedd Tymherus ac Anialdiroedd Gaeafol Oer. Y cynefinoedd penodol, sy'n ddangosol ond nid yn unigryw yw:

Glaswelltiroedd

- Savannah Sudd-Sahelaidd a glaswelltiroedd dan ddŵr
- Glaswelltiroedd Is-Antartig, yn cynnwys De Georgia
- Tundra tan-begynol ac arctig

Gwlybtiroedd

- Glaswelltiroedd dan ddŵr megis corydd Okavango a'r Sudd
- Deltâu Afon y Volga a'r Lena
- Afonydd Gorllewin Ghats

Anialdiroedd

- Karoo Suddlon
- Anialwch Namib
- Anialdiroedd Canol Asia
- Anialwch Socotra

Fforestydd

- Fforestydd Ilaith Madagascar
- Fforestydd yn Ne Chile a de'r Ariannin
- Fforestydd sych a Ilaith yng Nghaledonia Newydd
- Fforestydd Gorllewin Ghats

Morol

- Cwrelau'r Môr Coch
- Môr Andaman (safleoedd o fewn ardal eco-forol)
- Cerrynt Benguela (morol)
- Safleoedd morol o fewn ardaloedd eco'r WWF: Fiji, Palau a Tahiti
- Culfor California
- Cylchynysoedd y Maldives/Chagos

- 3.9 Mae tra-chywirdeb astudiaeth yr IUCN ar safleoedd naturiol, wrth argymhell y dylid rhoi blaenoriaeth i gynefinoedd daearol a morol penodol o fewn biom penodol, ac mewn rhai achosion o fewn gwledydd wedi'u henwi, yn diffinio'n ddiamwys yr ardaloedd hynny lle bydd y corff ymgynghori yn gweld angen am enwebiadau safle naturiol yn y dyfodol. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnwys o leiaf ddau argymhelliad o fewn Tiriogaethau Tramor y DU (De Georgia a Chagos) ond nid yw'r astudiaeth yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at unrhyw gynefinoedd o fewn y DU ei hun.
- 3.10 Mae hefyd nifer o astudiaethau thematig yn edrych ar agweddau penodol o dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Ceir rhestr o'r astudiaethau hynny sydd wedi'u cwblhau eisoes yn <http://whc.unesco.org/en/globalstrategy>.
- 3.11 Yn ychwanegol at yr astudiaethau hyn, mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd hefyd wedi argymhell yn y *Canllawiau Gweithredol* (para 59) y dylai gwladwriaethau sy'n cael eu cynrychioli'n dda gyflwyno llai o enwebiadau pellach drwy:
- a) bylchu eu henwebiadau'n wirfoddol yn ôl amodau fydd yn cael eu diffinio ganddyn nhw, a/neu;
 - b) dim ond cynnig eiddo sydd o fewn y categorïau sy'n dal i gael eu tangynrychioli, a/neu;
 - c) cysylltu pob un o'u henwebiadau gydag enwebiad a gyflwynir gan Blaid Gwladwriaeth y tangynrychiolir ei threftadaeth; neu
 - d) benderfynu ar sail wirfoddol, i ohirio cyflwyno enwebiadau newydd.
- 3.12 Yn ôl eu trefn, mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd hefyd wedi gofyn i aelod-wladwriaethau ystyried harmoneiddio'u Rhestr Cynigion gyda Rhestrau eu cymdogion.

Pennod 4: Costau a buddion statws Safle Treftadaeth y Byd

- 4.1 Mae'r wybodaeth a roddir gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd a'i ymgynghorwyr yn ganllaw gwerthfawr i ddangos y math o safle sy'n debygol o ennill arysgrifiad ar Restr Treftadaeth y Byd. Ond fel Plaid Gwladwriaeth sydd eisoes yn cael ei chynrychioli'n dda ar y Rhestr, gofynnir i ni hefyd ystyried arafu neu ohirio ein henwebiadau.
- 4.2 Er mwyn cynorthwyo i benderfynu p'un ai gohirio neu osod bylchau o ran amser rhwng ein henwebiadau, neu ganolbwyntio ar fathau arbennig o safle yn y dyfodol, comisiynodd y DCMS ynghyd â phartneriaid cyllido 'Historic Scotland' a Cadw astudiaeth annibynnol o gostau a buddion Statws Safle Treftadaeth y Byd. Yn fwy na dim, roeddem am wybod yr atebion i'r cwestiynau canlynol:
- Beth yw'r buddion ynghlwm wrth enwebiad ac arysgrifiad?
 - Beth yw'r costau cysylltiedig â chyfrifoldebau statws STB?
 - Sut fydd costau a chyfrifoldebau statws STB yn cael eu heffeithio gan y lleoliad, natur y safle, neu gan hyd a lled y marchnata cyn arysgrifiad i'w gymharu ag ar ôl hynny?
 - Sut mae costau, cyfrifoldebau a buddion wedi newid ers i'r Rhestr Cynigion diwethaf gael ei llunio yn 1999? Sut allent newid yn y dyfodol fel y bydd gwerthoedd a marchnadoedd byd-eang yn datblygu?
 - Beth ellid ei wneud i leihau costau a mwyaflu buddion posib cynigion STB?
 - Pa mor dda yw'r amgyffred o gostau/buddion i'w gymharu â'r gwir gostau/buddion?
 - I ba raddau y bydd cynnig STB llwyddiannus yn galluogi safleoedd i ddenu ffynonellau cyllid eraill?
- 4.3 Yn dilyn tendro cystadleuol comisiynwyd PricewaterhouseCoopers LLP (PwC) ym mis Mai 2007 i edrych i mewn i gostau a buddion statws Safle Treftadaeth y Byd yn y DU.

Crynodeb o gasgliadau'r PwC

- 4.4 Aeth yr astudiaeth ati i nodi'n unig y costau a'r buddion **ychwanegol** sydd yn perthyn yn uniongyrchol i statws STB. Roedd yn cynnwys nifer o elfennau gwahanol:
- ail edrych ar lenyddiaeth ymchwil blaenorol a wnaed yn y maes hwn
 - rhaglen o ymgynghori gyda thros 70 o unigolion a sefydliadau gwahanol
 - arolwg o gostau safleoedd Treftadaeth y Byd y DU
 - 6 astudiaeth achos o Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn cynnwys 5 safle enwog ac un llai enwog
 - arolwg drwy'r post o breswylwyr ar draws safleoedd yr astudiaethau achos.

- 4.5 Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn, yr adolygiad llenyddiaeth a'r astudiaethau achos ar wefan y DCMS sef www.dcms.gov.uk ac maent yn hysbysu'r ymgynghoriad hwn. Dyma brif ganlyniadau'r astudiaeth.

Beth yw'r costau a'r buddion cysylltiedig â statws STB a phwy sy'n eu hachosi neu'n elwa ohonynt?

- 4.6 Mae gwahaniaeth arwyddocaol yn y costau cysylltiedig â STB gan fod safleoedd mor wahanol o ran perchnogaeth, graddfa, natur, gwybodaeth ar gael a lleoliad.

DS: Mae pob cost cyflogi yn adlewyrchu cyflogau ac 'argost' o ran gorbenion

Tabl 1: Costau cynnig enwebiad STB		
Maes cost	Disgrifiad	Gwerth
Costau Cydlynnydd STB	Os tybiwn y byddai safle newydd yn cynnig ac yn cyflogi Cydlynnydd fyddai'n ennill rhwng £36,000-£42,000 y flwyddyn yn y flwyddyn gyntaf am 4.8 blynedd, gyda chynnydd mewn enillion cyfartalog o 3.5% y flwyddyn, byddai hyn yn dangos cyfanswm costau o rhwng £185,000-£216,000 am Gydlynnydd y Cynnig.	£36-£42k y.f. £185-£216k cyfanswm
Amser partner ac ymgynghori	Gan dybio cyfartaledd o tua £40k y flwyddyn o gostau staff a phedwar cyfarfod y flwyddyn, ar draws y safleoedd y mae gwybodaeth ar gael amdanynt a defnyddio'r rhif moddol o 13 o bartneriaid. Byddai hyn yn dangos cost gyfartalog o £7,800 y flwyddyn mewn amser partner. Unwaith eto, os defnyddiwn 4.8 blynedd fel hyd yr amser a gymerir gan y broses enwebu, gan dybio eto gynnydd o 3.5% mewn enillion blynnyddol, byddai hyn yn dangos cyfanswm costau staff i bartneriaid o gwmpas £41k.	- tua £8k y.f. - tua £41k cyfanswm
Costau cynhyrchu	Cynhyrchu dogfennau a ffotograffiaeth	£15-£50k cyfanswm
Astudiaethau cefnogi	Astudiaethau cymharol economaidd, twristiaeth, cadwraeth neu ryngwladol.	£20-£80k cyfanswm yr un

Tabl 2: Costau cynhyrchu cynllun rheoli		
Maes cost	Disgrifiad	Gwerth
Amser partner ac ymgynghori	Gan dybio cyfartaledd o tua £40k y flwyddyn o gostau staff a phedwar cyfarfod y flwyddyn, ar draws y safleoedd y mae gwybodaeth ar gael amdanynt a defnyddio'r rhif moddol o 13 o bartneriaid. Byddai hyn yn dangos cost gyfartalog o tua £7,800 y flwyddyn mewn amser partner. Unwaith eto, os defnyddiwn 4.8 blynedd fel hyd yr amser a gymerir gan y broses enwebu, gan dybio eto gynnydd o 3.5% mewn enillion blynnyddol, byddai hyn yn dangos cyfanswm costau staff i bartneriaid o gwmpas £41k.	- tua £8k y.f. - tua £41k cyfanswm
Costau cynhyrchu	Cynhyrchu dogfennau a ffotograffiaeth o £15-50k	£15-£50k

Tabl 3: Costau rheoli STB

Strwythur rheoli	Disgrifiad	Gwerth
Model cefnogaeth arbennig	• Endidau sengl fydd safleoedd ar y cyfan gyda'r safle ei hun (ac eithrio'r glustogfa) dan berchnogaeth sengl neu ond ychydig rai, a bydd yn gymharol annibynnol gyda'r perchennog yn aml yn dal statws arbennig, megis ym mherchnogaeth yr Eglwys neu'r Goron. Byddai'r safleoedd fyddai'n ffitio i'r grŵp hwn yn cynnwys Tŵr Llundain, Palas Blenheim, Westminster, Durham, Canterbury, Kew a Pharc Brenhinol Studley gan gynnwys Abaty Fountains.	• £13-£26k y.f.
Dim model cydlynnydd STB	• Mae'r safleoedd hyn yn nodedig yn bennaf oherwydd tra bod ganddynt grŵp llywio a chyfres o weithgorau, nid oes ganddynt gydlynnydd. Maent hefyd yn fwy arwyddocaol o ran eu maint neu lefel gwasgariad nag eraill. Mae'r safleoedd sydd yn y categori hwn yn cynnwys Giants Causeway a Chestyll y Brenin Edward I.	• £100-£160k y.f.
Model cydlynnydd STB	• Dyma'r dull mwyaf cyffredin o ymdrin â rheoli STB, gyda naw o'r 24 safle o fewn y categori hwn. Yn y lleoliadau hyn (Orkney, Ironbridge, Greenwich, Caerfaddon, Blaenafon, Dyffryn Derwent, Lerpwl, Saltaire a Chôr y Cewri ac Avebury) mae grŵp llywio neu reoli uwch yn bodoli ond derbyniant gefnogaeth gan gydlynnydd ymroddedig STB, weithiau â nifer fach o staff, a nifer o weithgorau eraill neu baneli technegol sy'n cyfarfod bob hyn a hyn.	• £130-£215k y.f.
Model endid ar wahân	• Mae rhai safleoedd mwy cymhleth wedi sefydlu endidau ar wahân i reoli'r STB, â llawer mwy o staff fel arfer. Mae'r safleoedd hyn yn nodweddiadol o rai o'r safleoedd mwyaf eu maint ac yn fwy cymhleth o ran perchnogaeth ac felly'n fwy cymhleth i'w rheoli. Byddai enghreifftiau o'r categori hwn yn cynnwys Caeredin, Mur Hadrian, Arfordir Dorset a Dwyrain Dyfnaint, Cernyw a Thirlun Mwyngloddio Dyfnaint a Lanark Newydd.	• £190-£615k y.f.

Tabl 4: Buddion a derbynyddion STB

Maes budd	Damcaniaeth/Disgrifiad	Buddiolwr
Partneriaeth	Dywedir bod statws STB yn cynyddu lefel gweithgareddau partneriaeth drwy'r ymgynghoriad sydd angen i greu a chyflawni anghenion y cynllun rheoli. Profir y ddamcaniaeth i raddau helaeth gan y dystiolaeth.	Bydd preswylwyr lleol ac ymwelwyr yn manteisio'n anuniongyrchol drwy well reolaeth.
Cyllid ychwanegol	Fel canlyniad i ennill statws STB, a thrwy'r ystod amrywiol o bartneriaid cysylltiedig, edrychir ar y safle mewn modd mwy ffafriol, yn arbennig gan ffynonellau cyllido seiliedig ar gadwraeth a threftadaeth ac yn amodol ar nifer o ystyriaethau eraill, ymddengys bod y ffynonellau hyn yn buddsoddi arian cyhoeddus ychwanegol yn y safle. Dyma faes budd arwyddocaol ar gyfer statws STB ond ar lefel lleol neu ranbarthol yn unig.	Bydd preswylwyr lleol ac ymwelwyr yn manteisio'n anuniongyrchol drwy gynnydd mewn buddsoddi yn y safle ond gan fod y cyllido bron yn gyfangwbl yn arian cyhoeddus, mae'r effaith net ar lefel genedlaethol yn ddim.
Cadwraeth	Bydd y cyllido ychwanegol ddaw yn sgil statws STB yn codi lefelau cadwraeth a bydd y cyhoeddusrwydd cynyddol yn darparu archwiliad mwy dwys o geisiadau cynllunio gan ddylanwadu ar faint ac ansawdd datblygu lleol. Gwelir mai effaith ymylol gaiff statws STB ar y system gynllunio, ond caiff effaith arwyddocaol ar gyllido.	Daw buddion 'defnyddiwr' i breswylwyr lleol ac ymwelwyr sy'n mwynhau gwell cadwraeth. Ceir 'Opsion defnyddiwr Canol dydd' a buddion 'cymynrodd' i'r boblogaeth ehangach.
Twristiaeth	Caiff statws STB ei awgrymu i gynnig mantais hyrwyddol ac 'effaith brandio' sy'n annog mwy o ymwelwyr. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn yn debygol o gael effaith ymylol (tua 0-3%) a bydd effaith gryfach ar safleoedd llai 'enwog'.	Bydd busnesau twristiaeth lleol yn cael budd o gynnydd mewn incwm.

Maes budd	Damcaniaeth/Disgrifiad	Buddiolwr
Adfywio	Tybir bod statws STB yn gatalydd ar gyfer adfywio, yn bennaf drwy symbylu buddsoddiad newydd, mudo mewnol a chynnydd mewn twristiaeth. Dim ond un enghraifft sy'n bod ar draws ein hastudiaethau achos lle mae hyn wedi digwydd; fodd bynnag, roedd ffactorau eraill ynghlwm.	Bydd pobl a busnesau lleol yn cael budd o lefelau uwch o weithgaredd economaidd mewn amrywiol ffyrdd.
Balchder dinesig	Edrychir ar statws STB fel mecanwaith ar gyfer adeiladu hyder lleol a balchder dinesig. Ymddengys bod hwn yn faes budd o bwys, ond mae'n ddibynnol ar yr amodau lleol a natur y safle.	Bydd pobl leol yn mwynhau cynnydd mewn hyder yn yr ardal a gwell ansawdd bywyd.
Cyfalaf cymdeithasol	Cydnabyddir bod gan statws STB y potensial i ddarparu mwy o unoliaeth cymdeithasol a chydlyniaid drwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio a chyswllt o fewn y gymuned leol. Daw tystiolaeth o'r arolwg drwy'r post bod y buddion hyn yn cronni ar lefel rhesymol. Awgryma'r arolwg hefyd bod y buddion hyn yn fwy arwyddocaol. Mae'r arolwg hefyd yn awgrymu bod y buddion hyn yn fwy arwyddocaol o fewn y mwyafrif ethnig a chrefyddol yn hytrach na chefnogi grwpiau lleiafrifol.	Poblogaethau a sefydliadau lleol.
Addysg a dysgu	Caiff statws STB ei ystyried fel offeryn ar gyfer ymrwymiad dysgu. Ymddengys eto bod gogwydd tuag at ddysgu a thwf gwybyddol yn y safleoedd.	Grwpiau addysgol yn ymweld (lleol neu ranbarthol).

Sut mae'r costau a'r buddion hyn yn cael eu heffeithio gan nodweddion penodol y safleoedd?

Mae'r nodweddion canlynol yn effeithio'n arwyddocaol ar eu costau a'u buddion cymharol.

Strwythur perchnogaeth

- 4.7 Lle bydd safleoedd dan berchnogaeth unigol, bydd nifer o'r gweithgareddau y gofynnir amdanynt gan statws STB eisoes yn cymryd lle, gan wneud costau ychwanegol y fath statws yn arwyddocaol is. Bydd safleoedd mwy yn aml angen strwythurau partneriaeth mwy arwyddocaol, gyda rhai o'r trefniadau perchnogaeth mwyaf gwasgaredig angen dros 70 o bartneriaid. Bydd hyn yn cynyddu costau, ond hefyd yn cynyddu cyfleoedd i gynnwys partneriaid wrth reoli ac ariannu'r safle.

Enwogrwydd y safle

- 4.8 Nid oes angen statws STB ar y rhai sydd eisoes yn enwog fel mesur o ansawdd ac fel canlyniad yn gwneud ond ychydig o ddefnydd o'r statws.

Lleoliad

- 4.9 Bydd safleoedd trefol yn debygol o fod angen lefel arwyddocaol uwch o adnoddau rheoli gan y bydd lefel y gweithgaredd o gwmpas y lleoliad yn debygol o fod yn uwch. Bydd pwysau ar ddatblygiad yn dangos cost cyfle cymharol uchel a budd cyfatebol uwch yn nhermau cadwraeth. Bydd gan safleoedd yn agos i drefi a dinasoedd mwy o faint, gyfle uwch i ddenu twristiaid ac ymweliadau ysgol.

Cymhelliannau

- 4.10 Statws STB yw'r hyn y mae'r Grwpiau Llywio wedi'i wneud ohono. Lle bydd y statws wedi'i ddefnyddio i effaith lawn mae wedi dod â phartneriaid at ei gilydd, denu cyllid ychwanegol, wedi arwain at ddatblygiadau newydd a buddion addysgol gwell, cadwraeth well gan arwain at adfywio mewn rhai lleoliadau. Lle na fanteisiwyd ar y cyfleoedd hyn bu'r buddion yn fwy cyfyngedig.

Marchnata

- 4.11 Nid yw'n eglur a yw lefel marchnata pob safle wedi cael unrhyw effaith arwyddocaol ar niferoedd y twristiaid fydd yn ymweld, er bod hyn wrth gwrs yn dibynnu ar enwogrwydd y safle cyn iddo gael ei arysgrifio fel STB.

Natur y safle

- 4.12 Bydd natur y safle a beth mae'n cynrychioli i'r boblogaeth leol yn penderfynu a fydd yn arwain at fuddion cymunedol a balchder dinesig.

Trefniadau rhestru treftadaeth

- 4.13 Bydd safleoedd sydd eisoes yn cael eu gwarchod yn dda yn llai tebygol o ennill buddion cadwraeth arwyddocaol o ennill statws STB, ond yn elwa o reoli holistig. Yn y tiriogaethau tramor mae safleoedd lle mae dynodiad wedi cael effaith arwyddocaol.

Sut y canfyddir y costau a'r buddion a pha mor barod yw'r safleoedd amdanynt?

- 4.14 Er bod ymwybyddiaeth gyffredinol o gostau a buddion arysgrifiad Treftadaeth y Byd yn gwella, mewn rhai mannau nid ydynt yn cael eu deall cystal (mewn perthynas â chostau cyfle/pwysau i ddatblygu) neu'n cael eu gorddatgan (mewn perthynas â thwristiaeth a buddion adfywio).

Sut allem ni leihau costau?

- Egluro'r lefelau cost a budd cysylltiedig i gyfarparu safleoedd yn well i wneud penderfyniadau ynghylch cynnig am STB neu beidio.
- Egluro natur a nodweddion safleoedd sy'n debygol o gael eu derbyn ar Restr Treftadaeth y Byd.
- Symleiddio'r broses ymgeisio.
- Sefydlu arfer gorau mewn trefniadau llywodraethu a rheoli.
- Annog safleoedd i alinio buddion STB yn nes at ddiddordebau'r sector preifat i annog cyllido sector preifat uwch.

Sut allem ni gynyddu ein buddion?

Ar lefel genedlaethol:

- Codi ymwybyddiaeth o STB
- Darparu cydnabyddiaeth uwch o STB yn y system gynllunio
- Arafu enwebiadau i gynnal gwerth cyfredol brand yr STB
- Egluro'r sefyllfa ar y defnydd o logo'r STB mewn marchnata

Ar lefel safle:

- Apwyntio cydlynnydd STB llawn amser ym mhob safle fel bod cyllido craidd ar gael ar sail barhaol
- Cefnogi mwy o weithgareddau cymunedol i fwyafu buddion balchder dinesig a chyfalaf cymdeithasol
- Cynnwys addysg a strategaethau dehongli o fewn cynlluniau rheoli Safle Treftadaeth y Byd

Sut mae'r sefyllfa hon yn debygol o newid yn y dyfodol a beth arall sydd angen ei ystyried?

- Mae'r cystadlu cynyddol am le ar Restr Treftadaeth y Byd a'r safonau mwy manwl sy'n gysylltiedig yn codi costau enwebu, wrth i nifer cynyddol a natur y safleoedd a dderbynnir ar y Rhestr wneud i statws STB ymddangos yn fwy posib i'w gyrraedd.

- Dibrisiad yn y brand STB a'r buddion wrth i fwy o safleoedd gael eu cynnwys ar y rhestr.
- Diddordeb cynyddol mewn mynd ar ôl STB fel offeryn ar gyfer adfywio yn hytrach nac am resymau cadwraeth.
- Graddfa ac ehangder cynyddol ymgynghori ar dreftadaeth, cadwraeth a gweithgareddau cynllunio yn arwain at gostau cynyddol.
- Wrth fethu cael arweiniad gwrthrychol, daw safleoedd ymlaen heb fawr o obaith i lwyddo, a hynny'n arwain at wastraffu ymdrech.
- Wrth i ofynion UNESCO newid a/neu gynyddu, mae angen cadw safleoedd mewn cysylltiad, fel eu bod yn gallu plethu'r rhain i mewn i'w penderfyniadau.
- Er y gallai dynodiad cenedlaethol (gweler Pennod 6 ar ddynodiadau eraill) ddarparu proses hidlo allan ddefnyddiol ar gyfer safleoedd TB newydd posib, byddai hyn yn ychwanegu cymhlethdod at system restru sydd eisoes yn orgymhleth.

Negeseuon ar gyfer safleoedd sydd am gynnig

- 4.15 Mae adroddiad PwC yn awgrymu y dylai safleoedd gobeithiol feddwl yn galed cyn ymgeisio am Statws Treftadaeth y Byd. Mae'r broses yn ddrud ar bob cam, ac mae costau'n cynyddu. Ni ddaw buddion awtomatig o ran twristiaeth ychwanegol ac adfywio economaidd. Gall y buddion hyn o bosib ddod yn sgil arysgrifiad, ond dim ond lle mae safleoedd wedi gweithio i'w hennill. Mae'r un peth yn wir am gyllido ychwanegol, y bydd safleoedd o bosib yn mynd ar ei ôl, ac sy'n dod fel arfer o ffynonellau cyhoeddus ac ar draul safleoedd mewn mannau eraill o bosib. Bydd graddfa, uchder ac ansawdd y datblygu o gwmpas Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cael eu harchwilio'n fanwl.
- 4.16 Mae'n eglur, fodd bynnag, ar gyfer rhai mathau o safleoedd, lle mae'r amodau'n iawn, nid yn unig y daw buddion ar ôl ennill arysgrifiad, ond gall y posibilrwydd ei hun o dderbyn enwebiad gael effeithiau da ar y modd y bydd safleoedd yn cael eu rheoli a'u gwarchod. Gall bri lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn wir ddod yn sgil arysgrifiad yn enwedig i safleoedd nad ydynt mor enwog. Gall statws Safle Treftadaeth y Byd gynyddu balchder lleol a chodi ymwybyddiaeth o faterion cadwraeth.

Pennod 5: Enwebiadau i'r dyfodol am statws Safle Treftadaeth y Byd

- 5.1 Gan iddi ddod yn bryd adolygu ein Rhestr Cynigion, dylem ystyried yn ofalus sefyllfa Pwyllgor Treftadaeth y Byd a'i ymgynghorwyr a'r ymchwil a gomisiynwyd gennym i gostau a buddion, er mwyn penderfynu a ddylem barhau i enwebu ar gyfer Rhestr Treftadaeth y Byd. Y prif opsiynau yw:
- i) parhau i enwebu'n flynyddol o'n Rhestr Cynigion cyfredol;
 - ii) gohirio unrhyw enwebiadau am gyfnod a chanolbwyntio yn lle hynny ar wneud y gorau o'r safleoedd sydd gennym eisoes; neu
 - iii) llunio Rhestr Cynigion sydd â ffocws mwy pendant iddi, symleiddio'r broses ymgeisio a gosod bylchau o ran amser rhwng ein henwebiadau fel nad ydym o reidrwydd yn cynnig safle newydd bob blwyddyn.

Opsiwn i: Parhau i enwebu'n flynyddol o'n Rhestr bresennol

Yn ein barn ni, byddai dewis yr opsiwn busnes fel arfer – neu barhau i enwebu'n flynyddol o'n Rhestr bresennol – yn annhebygol o fod o werth, gan y byddai'n cyfuno costau uchel enwebiadau Treftadaeth y Byd gyda thebygolrwydd isel o lwyddo wrth i flaenoriaethau Pwyllgor Treftadaeth y Byd (PTB) ddatblygu a newid.

Opsiwn ii: Gohirio enwebiadau

- 5.2 Byddai manteision i ohirio enwebiadau am ychydig. Byddai hyn yn:
- cynorthwyo i gynnal cydbwysedd eang ar Restr Treftadaeth y Byd;
 - cynorthwyo i gynnal hygyrdd y Rhestr a gwerth y safleoedd sydd gennym eisoes drwy gyfyngu ar eu nifer;
 - osgoi'r angen am brisio neu werthuso safleoedd treftadaeth y dyfodol yn ôl blaenoriaethau rhyngwladol a phan fydd bylchau'n ymddangos, yn hytrach na'u prisiau yn ôl ein gwerthoedd cenedlaethol ein hunain;
 - arbed yr amser a'r costau ynghlwm wrth enwebu o'r newydd, gan ganiatáu i ni gyfeirio'n adnoddau yn lle hynny at safleoedd sy'n bodoli eisoes, a chryfhau cydweithredu rhyngwladol;

- darparu cyfleoedd i ail-enwebu Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n bodoli eisoes gyda meini prawf ychwanegol a/neu ymestyn eu ffiniau'n sylweddol - newidiadau mawr sydd rhaid eu hystyried fel enwebiadau newydd yn ôl y canllawiau cyfredol;
- caniatáu amser i ddatblygu enwebiadau trawsgenedlaethol pellach.

5.3 Ond byddai anfanteision hefyd. Byddem yn:

- colli'r effeithiau da y bydd ymgeisio, enwebu ac arysgrifio yn ei gael ar y modd y bydd safleoedd yn cael eu rheoli a'u gwarchod;
- colli'r cyfle i ennill bri lleol/rhanbarthol/cenedlaethol a chodi proffil ein treftadaeth ddiwylliannol a naturiol ein hunain yn gyffredinol;
- methu diweddarau ein rhestr mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu gwerthoedd cyfredol.

O bwysu a mesur, credwn y byddai cost gohirio enwebiadau yn gorbwysu'r buddion.

Opsiwn iii: Creu bylchau amser rhwng enwebiadau o Restr Cynigion fyrrach â ffocws mwy pendant iddi

5.4 Cynigiwn y cyfaddawd o fylchu enwebiadau i Restr Treftadaeth y Byd dros y deng mlynedd nesaf, fel na fyddem bellach yn dilyn y drefn o enwebu bob blwyddyn, ond yn cadw'r opsiwn o gynnig enwebiadau priodol gan dynnu o Restr Cynigion fyrrach â ffocws mwy pendant iddi. Byddai proses ymgeisio dau gam yn fodd i hidlo allan yn gynnar y safleoedd hynny fyddai'n annhebygol o fod yn llwyddiannus.

5.5 Mae heriau amlwg ynghlwm wrth fyrhau ein Rhestr Cynigion ar adeg pan yw'r diddordeb yn statws Treftadaeth y Byd ar gynnydd, ond wrth i ddealltwriaeth o flaenoriaethau Pwyllgor Treftadaeth y Byd gynyddu, a mwy o wybodaeth ar gael am y costau a'r buddion posib o ymgeisio, credwn y bydd safleoedd sydd am gynnig yn meddwl yn llawer mwy gofalus yn y dyfodol cyn cyflwyno cais am statws TB.

Symleiddio'r broses ymgeisio

5.6 Mae astudiaeth PwC yn nodi os gellid sefydlu proses oedd yn fyrrach a mwy eglur, gyda chynigion yn cael eu gwrthod yn gynt yn y broses, a thynhau ar y llif fel bod llai o safleoedd posib, yna byddai hyn yn lleihau'r costau i bawb sy'n gysylltiedig.

5.7 Ein nod felly fyddai i symleiddio'r broses ymgeisio drwy:

- darparu eglurder o'r cychwyn cyntaf ynghylch y meini prawf gofynnol a'r bylchau i'w llenwi;
- sicrhau bod safleoedd sy'n cynnig yn deall yn hollol beth fydd costau a buddion tebygol y broses; a
- chyflwyno proses ymgeisio dau gam gyda'r diben o hidlo allan yn gynnar yn y broses y safleoedd hynny fyddai'n annhebygol o lwyddo.

Cwestiynau ar gyfer safleoedd sydd am gynnig

Byddem yn annog pob safle arfaethedig, cyn iddynt gyflwyno cais, i ystyried yn ofalus flaenoriaethau datganedig Pwyllgor Treftadaeth y Byd a'r 'bylchau' yn y rhestr gyfredol fel y'u dynodwyd gan ei ymgynghorwyr ICOMOS ac IUCN (wedi'u crynhoi ym Mhenodau 2 a 3).

Tra bu cynnydd yn y diddordeb dros y blynyddoedd mewn cynnig am statws STB, dangosodd yr ymchwil a wnaed nad oes dealltwriaeth gywir bob amser o'r costau a'r buddion. Dylai safleoedd sydd am ymgeisio astudio'r ymchwil a gomisiynwyd gennym i gostau a buddion yn ofalus (wedi'i grynhoi ym Mhennod 4).

Y cwestiynau allweddol ar gyfer safleoedd sydd am ymgeisio yw:

A yw'n safle ni'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer Gwerth Byd-eang Eithriadol?

A yw'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer dilysrwydd a chyfanrwydd?

A yw'n dal y prawf wrth ei gymharu ag eraill yn genedlaethol a rhyngwladol?

A ydym wedi ymroi i reoli'r safle a'r lleoliad yn y dyfodol mewn ffyrdd fydd yn amddiffyn ei Werth Byd-eang Eithriadol?

Mae Atodiad C, a dynnwyd o adroddiad PwC ar gostau a buddion statws Safle Treftadaeth y Byd, yn cynnig canllaw pellach at sylw safleoedd sydd am ymgeisio, cyn iddynt gyflwyno cynnig. Byddem yn argymhell i safleoedd ddarllen y canllaw hwn yn ogystal â'r Canllawiau Gweithredol cyn penderfynu os ydynt am gynnig am statws Treftadaeth y Byd ai peidio.

Meini Prawf

- 5.8 Gan fod gofynion a blaenoriaethau'r PTB yn gynyddol gymhlethu, byddwn yn mynnu bod safleoedd sydd am gynnig yn dod yn gyfarwydd â'r rhain, ac ond yn ymgeisio os byddant yn cwrdd â'r meini prawf canlynol:
- Tystiolaeth *prima facie* o Werth Byd-eang Eithriadol gan gynnwys dilysrwydd a chywirdeb
 - Y graddau y bydd y cynigion yn cwrdd ag anghenion y strategaeth fyd-eang a'r astudiaethau i ddarganfod bylchau
 - A yw'r safle'n dod dan gategori sy'n cael ei dangynrychioli ar Restr Treftadaeth y Byd
 - Y graddau y bydd y safle'n amodol ar bwysau i ddatblygu a allai effeithio ar werth byd-eang eithriadol
 - Y graddau y bydd cydweithrediad rhyngwladol neu gysylltiadau i'w dilyn ymlaen yn weithredol
 - Consensws lleol cryf i fynd ar ôl y broses enwebu.

Cryfhau cydweithrediad rhyngwladol

- 5.9 I gyd-fynd ag argymhelliad Pwyllgor Treftadaeth y Byd, lle bydd hi'n ymarferol i wneud hynny, byddem yn annog safleoedd sydd am gynnig i gysylltu'u ceisiadau gyda safleoedd mewn gwledydd a dangynrychiolir ar Restr Treftadaeth y Byd. Lle nad yw'n bosib cael enwebiad trawsenedlaethol, byddem yn annog safleoedd posib i ystyried pa gefnogaeth arall y gallent ei gynnig. Gallai buddiolwyr gynnwys y Gymanwlad neu

wledydd eraill sydd â threftadaeth gyfrannol yn ardal yr enwebiad posib, yn enwedig lle bydd y gwledydd hyn yn brin o'r adnoddau neu'r arbenigedd i enwebu neu reoli eu safleoedd eu hunain. Fel y mae safleoedd y DU eisoes wedi dangos, mae sawl ffordd o gynnig cefnogaeth i'r gymuned ryngwladol, gan feddi'r manteision yn y broses o gyfnewid arfer gorau a gwella'r cydweithredu rhwng gweithwyr proffesiynol treftadaeth. Bydd y dulliau hyn yn gymorth i sicrhau y bydd gwerth byd-eang eithriadol cydnabyddedig ein safleoedd o wir fudd ar draws y byd.

Cysylltiadau â'r gymuned ryngwladol

- Yn 2005 cyhoeddodd Pwyllgor Treftadaeth y Byd bod Mur Hadrian, Safle Treftadaeth y Byd y DU ynddo'i hun ers 1987, wedi'i ymestyn i gynnwys yr 'Upper German-Raetian Limes' i ffurfio rhan gyntaf Safle Treftadaeth y Byd mawr trawsgenedlaethol, **Ffiniau'r Ymerodraeth Brydeinig**. Disgwylir wrth i'r safle gael ei ymestyn ymhellach bydd yn y diwedd yn cwmparu gweddillion y Ffiniau Rhufeinig o gwmpas y Canoldir. Cafodd rhan nesaf y safle, Mur Antonine yn yr Alban, ei arysgrifio gan y Pwyllgor fel estyniad i'r safle Ffiniau ym mis Gorffennaf 2008.
- Mae **Gerddi Botanig Brenhinol Kew** yn datblygu rhaglen gydweithredol fyd-eang sy'n ymwneud â gweithgareddau allweddol megis creu hygrychedd byd-eang i wybodaeth hanfodol, cynorthwyo i weithredu rhaglenni cadwraeth fyd-eang, ac ymestyn partneriaeth fyd-eang Banc Had y Mileniwm.
- Pan fu dirywiad ym **mwyngloddio Cernyw a Gorllewin Dyfnaint** yn yr 1860au, ymfudodd nifer fawr o fwynwyr i fyw a gweithio mewn cymunedau mwyngloddio seiliedig ar draddodiadau Cernyw, er enghraifft, yn Ne Affrica, Awstralia, a Chanol a De America, lle mae tai injan Cernyw wedi goroesi. Mae ffiniau Mwyngloddio Cernyw yn syniad ar gyfer enwebiad cyfresol, cynyddol, trawsgenedlaethol sy'n cynnwys y tirluniau diwylliannol Mwyngloddio Cernyw rhyngwladol mwyaf arwyddocaol mewn hanes a'r gorau sydd wedi goroesi.
- Mae Grŵp Llywio **Arfordir Jurassic** wedi cefnogi Llywodraeth St Lucian yn eu gwaith yn rheoli Safle Treftadaeth y Byd Ardal Rheoli Pitons. Mae hyn wedi golygu cymorth technegol o bwys a diweddu mewn ymweliad ag Arfordir Jurassic am wythnos gan swyddogion Llywodraeth St. Lucian.

- 5.10 Mae rôl ryngwladol hefyd ar gyfer Llywodraeth ac asiantaethau treftadaeth yn ogystal ag ar gyfer safleoedd unigol. Gwahoddir Pleidiau Gwladwriaethol i ddarparu cymorth i'r Confensiwn yn ychwanegol at gyfraniadau gorfodol a delir i Gronfa Treftadaeth y Byd, ac mae'r DU wedi arwyddo cytundeb dwyochrog gydag UNESCO i gynorthwyo i gefnogi prosiectau Canolfan Treftadaeth y Byd i ddatblygu cymwys ac adeiladu cynhwysedd yn y Caribi, Affrica tan-Sahara a De Asia. Anogir Pleidiau Gwladwriaethol hefyd i hyrwyddo sefydlu cymdeithasau neu sefydliadau cenedlaethol, cyhoeddus a phreifat, wedi'u hanelu at godi arian i gefnogi ymdrechion cadwraeth Treftadaeth y Byd. Gallai proses enwebu ddiwygiedig ein cynorthwyo i gyflawni'n nodau rhyngwladol ar gyfer gwledydd datblygol, a gallai'r DU gyfan fynd ar ôl ffyrdd pellach o gynyddu cydweithrediad rhyngwladol, gan gydweithio'n agos â DFID, FCO,

DEFRA, Comisiwn Cenedlaethol y DU dros UNESCO a'r Cyngor Prydeinig, ICOMOS ac IUCN yn y DU i adeiladu ar raglenni cadwraeth sydd eisoes yn bodoli.

- 5.11 Mae safleoedd yn Nhiriogaethau Tramor y DU yn haeddu ystyriaeth arbennig os byddant o fewn ardaloedd sy'n cael eu tangynrychioli neu angen cefnogaeth ryngwladol. Mae ganddynt, er enghraifft, gyfoeth o wahanol rywogaethau o adar, ac yn ôl yr RSPB mae 47 o'r rhain o bryder cadwraeth byd-eang, â 34 o'r rheiny'n cael eu dosbarthu'n rhywogaethau Dan Fygythiad yn Fyd-eang. Nid yw polisïau Cadwraeth a'r modd y cânt eu gweithredu yn Nhiriogaethau Tramor y DU bob tro'n derbyn yr un gefnogaeth â'r hyn a roddir yn y DU.

Adlewyrchu gwerthoedd cyfredol

- 5.12 Un o'r rhesymau dros barhau i enwebu ar gyfer Rhestr Treftadaeth y Byd - er ein bod ymhlith y gwledydd sy'n cael eu cynrychioli orau - fyddai cadw'r cyfle i ddiweddarau ein cyfraniad ein hunain i'r Rhestr, a sicrhau ei fod yn wir adlewyrchu ein treftadaeth amrywiol. Mae gwerthoedd treftadaeth yn newid ac efallai nad oedd safleoedd y byddwn ni'n ystyried bod gwerth byd-eang eithriadol iddynt heddiw hyd yn oed yn gystadleuwyr pan luniwyd y Rhestr yn wreiddiol. Rhaid i enwebiadau wrth gwrs fod yn gyson â meini prawf a blaenoriaethau Pwyllgor Treftadaeth y Byd, ond mae tebygrwydd rhwng y meysydd sydd ar flaen yr agenda treftadaeth rhyngwladol a'r meysydd y byddwn ni'n eu hystyried yn bwysig yn fewnol. Mae'r pwysigrwydd a roddir gan ICOMOS, er enghraifft, i hanes yr 20fed ganrif ac i ddiwylliannau byw, yn enwedig diwylliannau traddodiadol, yn taro tant gyda'n diddordeb cynyddol ni ein hunain mewn diwylliant poblogaidd ac ymdeimlad o le. Mae ymchwil PwC wedi dangos mai'r safleoedd oedd yn cael y budd a'r balchder cymunedol mwyaf oedd y rheiny yr ystyriwyd eu bod ag arwyddocâd lleol iddynt. Nid oes raid bod gwrthdaro rhwng cysyniadau gwerth byd-eang eithriadol ac arwyddocâd lleol, lle bydd safle er enghraifft, yn dystiolaeth eithriadol o draddodiad diwylliannol sy'n fyw neu wedi diflannu.

Proses ymgeisio dau gam

- 5.13 Er mwyn hidlo allan geisiadau anghymwys yn gynt, a darparu mwy o gymorth a chynghor i'r ceisiadau hynny sy'n debygol o lwyddo, byddem yn cynnig cyflwyno proses ymgeisio dau gam.

Cam 1

Yng Ngham 1 byddai raid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais yn amlinellu:

- tystiolaeth *prima facie* o Werth Byd-eang Eithriadol gan gynnwys dilysrwydd a chywirdeb.
- a yw'r safle'n perthyn i gategori tangynrychiolaeth ar Restr Treftadaeth y Byd a sut y mae'n perthyn i Strategaeth Fyd-eang Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO (gweler Pennod 3 uchod).
- y graddau y bydd y safle'n amodol i bwysau i ddatblygu a allai effeithio ar ei werth byd-eang eithriadol, a sut y bydd hyn yn cael ei reoli.
- y graddau y bydd cydweithrediad rhyngwladol neu gysylltiadau i'w dilyn ymlaen yn weithredol

- a ellid edrych ar y cais fel estyniad i safle sy'n bodoli eisoes, naill ai yn y DU neu mewn unrhyw wlad arall.

5.14 Byddai rhesymau clir yn cael eu rhoi i bawb fyddai'n cael eu gwrthod ar y cam hwn.

Cam 2

5.15 Byddai ymgeiswyr llwyddiannus yng Ngham 1 yn mynd ymlaen i lenwi cais Cam 2. Dylai hwn roi mwy o fanylion ar y meysydd uchod a hynny'n cynnwys:

- tystiolaeth mai'r safle hwnnw yw'r gorau neu'r enghraifft fwyaf cynrychioliadol yn genedlaethol a rhyngwladol o'r math o dreftadaeth ddiwylliannol neu naturiol y mae'n ei gynrychioli
- sut y mae'r cais yn cwrdd â gofynion y strategaeth fyd-eang a'r astudiaethau bwlch
- tystiolaeth o gefnogaeth leol i'r cais
- y trefniadau arfaethedig ar reoli'r safle yn y dyfodol mewn ffyrdd fydd yn gwarchod ei werth byd-eang eithriadol, gan gynnwys cyllido (gweler para 7.18)
- lle bo hynny'n briodol, y gefnogaeth y gellid ei chynnig i wlad neu wledydd y mae eu treftadaeth yn cael ei dangynrychioli ar Restr Treftadaeth y Byd.

Y drefn ar gyfer safleoedd sydd ar y Rhestr Cynigion cyfredol

5.16 Tra nad yw rhai safleoedd sydd ar y Rhestr Cynigion bellach am fynd ar ôl Statws Safle Treftadaeth y Byd, mae eraill wedi treulio amser ac arian wrth fynd ar ôl eu cynigion ac wedi cyflwyno gwelliannau wrth wneud hynny ddylai fod o fudd iddynt yn y blynyddoedd sydd i ddod. Bu'n wybyddus erioed y byddai'r Rhestr Cynigion yn cael ei adolygu o fewn deng mlynedd i ganiatáu i ni gymryd y newid mewn blaenoriaethau mewn ystyriaeth. Pe byddem yn methu gwneud hynny, a dim ond yn parhau i enwebu o'r rhestr bresennol, ni allem ddisgwyl i'r raddfa lwyddiant fod yn uchel. Felly tra'n cydnabod y lle arbennig sydd i safleoedd y Rhestr Cynigion yn ein treftadaeth, rhaid i ni ofyn iddynt ystyried a ydynt yn dal i ddymuno mynd ar ôl statws Safle Treftadaeth y Byd, yng ngoleuni'r wybodaeth sydd ar gael yn awr ar flaenoriaethau'r PTB a'r costau a'r buddion tebygol. Pe byddent am barhau, bydd gwahoddiad iddynt ailymgeisio gan ddilyn yr un broses â safleoedd newydd posib. Ni fydd rhagdybiaeth na ddylai safle gael lle ar yr un newydd os oedd ar yr hen Restr Cynigion hefyd - nac ychwaith y dylai dderbyn triniaeth ffafriol. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.

Y broses o ddethol

- 5.17 I adolygu Rhestr Cynigion 1997-99, sefydlwyd pwyllgor adolygu gan Dreftadaeth Lloegr ar ran y DCMS i adolygu'r rhestr dros Loegr, Dibynwledydd y Goron a Thiriogaethau Tramor. Gwnaeth Swyddfeydd yr Alban a Chymru yn ogystal ag Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon eu trefniadau eu hunain, pob un yn cynnal adolygiadau ar wahân.
- 5.18 Roedd pryderon ar y pryd fodd bynnag y byddai cael rhestrau ar wahân yn ei gwneud hi'n fwy anodd i ddod i benderfyniad ac yn cynhyrchu rhestrau anghyson. Roedd

pryderon hefyd am dryloywder y broses, a'r ffaith bod rhai o blaid y penderfyniad yn cael eu rhoi mewn sefyllfa israddol i eraill.

- 5.19 Er mwyn cyflawni'r nod o lunio rhestr fyrrach i gwrdd â blaenoriaethau a gofynion â ffocws mwy pendant iddynt, byddem yn cynnig y dylai'r adolygiad nesaf gael ei lywio gan banel sengl dan gadeiryddiaeth Treftadaeth Lloegr (fel ymgynghorwyr statudol i'r DCMS ar Dreftadaeth y Byd) a chynnwys cynrychiolaeth ddiwylliannol a naturiol o bob gweinyddiaeth a ddatganolwyd, ynghyd â chynrychiolwyr neu aelodau o 'Natural England', y JNCC, Comisiwn Cenedlaethol y DU dros UNESCO, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ran Dibynwledydd y Goron, a FCO ar ran y Tiriogaethau Tramor. Dylid ymgynghori ag adrannau eraill y llywodraeth (megis DCLG, DEFRA a'r Weinyddiaeth Amddiffyn) a Fforwm Treftadaeth y Byd ar gyfer Awdurdodau Lleol (LAWHF).
- 5.20 Dylai'r panel ymgynghori ag ICOMOS-UK ac IUCN UK cyn gwneud argymhellion.
- 5.21 Unwaith y daw'r panel a'i ymgynghorwyr i gytundeb, dylid cyhoeddi'r argymhellion ar y safleoedd i'w cynnwys ar y Rhestr Cynigion, er mwyn derbyn sylwadau gan y cyhoedd.
- 5.22 Byddai'r holl argymhellion yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidogion yn y DCMS, y gweinyddiaethau datganoledig, DEFRA, FCO a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cysylltu pobl mewn trafodaeth

- 5.23 Gallai gweithdai ar gyfer rhanddeiliaid gynnwys safleoedd posib, llywodraeth leol, cymunedau lleol, NDPBau a phleidiau a phartneriaid eraill â diddordeb. Diben trafodaethau o'r fath fyddai cynyddu dealltwriaeth o flaenoriaethau Pwyllgor Treftadaeth y Byd, a chostau a buddion statws Safle Treftadaeth y Byd, a chynnig cyngor ar faterion gweithredu megis ysgrifennu cynlluniau rheoli, diffinio ffiniau, a rheoli datblygiad i'r dyfodol.

Amserlen

- 5.24 Mae Gweinidogion y DCMS eisoes wedi cyhoeddi enwebiadau arfaethedig hyd mis Ionawr 2010. Ym mis Ionawr 2011 bwriadwn gyflwyno Rhestr Cynigion newydd i Ganolfan Treftadaeth y Byd. Ym mis Ionawr 2012 byddem yn cyflwyno ein henwebiad cyntaf o'r Rhestr newydd, a fyddai dan reolau UNESCO yn ein galluogi ni i gyflwyno ein henwebiad cyntaf o restr newydd yn 2012.

Rydym yn cynnig yr amserlen ddangosol ganlynol:

Rhag 08	Papur ymgynghori'n cael ei gyhoeddi
Ion 09	<i>Ail gyflwyno Labordy Tirlun Darwin</i>
Chwef 09	Dyddiad cau ar gyfer ymatebion
Mai 09	Cyhoeddiad ar bolisi Treftadaeth y Byd, gan gynnwys gwahoddiad i lunio ceisiadau Cam 1 a chyhoeddi canllaw priodol/meini prawf <i>enwebu</i>
Mehafin 09	Gweithdai ar gyfer rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o ofynion a chyfrifoldebau statws TB cyn i unrhyw geisiadau gael eu gwneud
Gorff 09	Dyddiad cau derbyn ceisiadau Cam 1

Rhag 2009	Penderfyniadau a hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau Cam 2 a/neu ystyried enwebiadau trawsgenedlaethol
<i>Ion 2010</i>	<i>Enwebiad Mynachlog Gefeilliol Wearmouth a Jarrow</i>
Ebrill 2010	Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau Cam 2
Awst 2010	Rhestr o safleoedd argymelledig a derbyn sylwadau'r cyhoedd
Tach 2010	Dyddiad cau i dderbyn ymatebion
Ion 2011	Cyhoeddi Rhestr Cynigion newydd
Ion 2011	Cyflwyno'r Rhestr Cynigion newydd i Ganolfan TB
Ion 2012	Enwebiad o'r Rhestr newydd yn cael ei gyflwyno i Ganolfan TB

Pennod 6: Dynodiadau eraill

- 6.1 Rydym wedi ystyried i ba raddau y gallai dynodiadau eraill ein cynorthwyo i ymateb i gostau cynyddol y broses o gynnig ar gyfer arysgrifio ar Restr Treftadaeth y Byd, yr anawsterau o gydweddu'r dreftadaeth y gwelwn fwyaf o werth ynddo gyda llefydd gwag neu fylchau yn y rhestr fyd-eang, a'r arweiniad gan y PTB y dylai gwledydd sydd wedi'u cynrychioli'n dda arafu neu ohirio'u henwebiadau. Gallai enwebiadau i Restr Treftadaeth Ewropeaidd neu Genedlaethol ddarparu ffyrdd eraill o ennill cydnabyddiaeth a naill ai ddisodli neu redeg cyfochr ag enwebiadau i Restr Treftadaeth y Byd.

Rhestr Treftadaeth Genedlaethol

- 6.2 Yn Lloegr a Chymru, mae gennym eisoes yr hyn y gellid ei alw yn rhestr treftadaeth genedlaethol, i'r graddau bod adeiladau rhestredig (Gradd I, II* and II) a henebion a gofrestrwyd wedi'u diffinio fel eiddo o arwyddocâd cenedlaethol. Gwarchodir ein treftadaeth naturiol yn yr un modd, a'i reoli drwy ystod o ddynodiadau cenedlaethol ac Ewropeaidd ar gyfer rhywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau. Gallem, fodd bynnag, lunio rhestr llawer mwy dethol o safleoedd sydd uchaf eu harwyddocâd. Gallai'r manteision gynnwys:
- sicrhau bod safleoedd mewn cyflwr parod ar gyfer eu henwebu i Restr Treftadaeth y Byd, gan gynyddu'u tebygolrwydd o lwyddo a lleihau costau adeg y cam enwebu;
 - darparu cydnabyddiaeth i safleoedd – er eu bod yn methu dangos gwerth byd-eang eithriadol neu'n dod i gategori gorgynrychiolaeth yn Nhreftadaeth y Byd – sydd yn dal yn bwysig iawn yn genedlaethol.
- 6.3 Ond mae anfanteision er hynny:
- Mewn amser gallai cynnig am eu cynnwys ar Restr Treftadaeth Genedlaethol fod mor gostus â chynnig am le ar Restr Treftadaeth y Byd, heb y budd ychwanegol o ennill bri rhyngwladol.
 - Os yw effeithiau twristiaeth ac adfywio statws TB wedi'i orddatgan, ni ddylem ddisgwyl i gynllun dynodi cenedlaethol arwain at fuddion arwyddocaol ychwaith.
 - Byddai angen i ni benderfynu a allai safleoedd ar Restr Treftadaeth y Byd hefyd fod ar y Rhestr Treftadaeth Genedlaethol, ac i'r gwrthwyneb, gyda'r risgiau atodol o ddyblygu amser ac ymdrech.

- Byddai Rhestr Treftadaeth Genedlaethol ar wahân yn gwrthdaro gyda chynlluniau cyfredol yn Lloegr a Chymru i greu system sengl ar gyfer dynodi'n genedlaethol gan ddisodli'r system restru a chofrestru dameidiog sydd gennym ar hyn o bryd wrth ddynodi ein hasedau a'n tirluniau treftadaeth pwysig.

Label Treftadaeth Ewropeaidd

- 6.4 Lansiodd Label Treftadaeth Ewropeaidd yn y gwanwyn 2007. Daeth y symbyliad ar gyfer y label oddi wrth fenter Ffrengig, Sbaenaidd a Hwngaraidd y cyflwynwyd eu cynigion ar y cyd mewn cyfarfod o Gyngor Gweinidogion Diwylliant ym Mrwsel ym mis Mai 2006. Diben y Label yw amlygu safleoedd a henebion sydd wedi chwarae rhan allweddol yn hanes Ewrop a chodi eu proffil fel atyniad twristiaeth. Mae'r DU ar y cyfan yn fodlon gydag egwyddorion y cynllun, yn enwedig yr argymhelliad y dylai'r cynllun fod yn un gwirfoddol, a hynny'n caniatáu i'r DU benderfynu ar faint unrhyw gyfranogiad yn y dyfodol. Pe byddem yn cymryd rhan yn y cynllun, byddem angen bod yn glir ar nifer o faterion gan gynnwys costau a chyfrifoldebau'r ymrwymiad; sut y gellir osgoi dyblygu gyda Rhestr Treftadaeth y Byd; ac i ba raddau y bydd y broses enwebu yn agored, yn atebol a chynhwysol.

Pennod 7: Gwarchod, rheoli a hyrwyddo Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y dyfodol

Crynodeb

- 7.1 Nid yw Treftadaeth y Byd yn golygu adnabod neu ddynodi safleoedd i'r dyfodol yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â gwarchod, cadwraeth, cyflwyno a throsglwyddo ein hasedau treftadaeth i genedlaethau'r dyfodol. Os ydym am wneud hyn yn iawn rhaid i ni sicrhau ein bod yn ffocysu'n hegion ar edrych ar ôl ein safleoedd presennol yn ogystal ag ystyried rhai newydd.
- 7.2 Mae yna nifer o ffynonellau cyngor y gallwn dynnu ohonynt i gael y gorau allan o'n safleoedd presennol:
- Canllawiau cyffredinol y Pwyllgor TB a'i ymgynghorwyr ICOMOS ac IUCN.
 - Ymarfer cyflwyno adroddiad cyfnodol a gynhaliwyd yn 2004 a 2005 mewn ymateb i'r gofyn bod Pleidiau Gwladwriaethau yn cyflwyno adroddiadau ar y camau a gymerwyd i weithredu'r Confensiwn.
 - Adroddiadau monitro rheolaidd gan bob safle.
 - Ymweliadau monitro ymatebol gan ICOMOS-UNESCO i Safleoedd Treftadaeth y Byd yn Llundain a Lerpwl ym misoedd Hydref/Tachwedd 2006, i Gaerfaddon a Chaeredin yn 2008.
 - Y dadansoddiad a gomisiynwyd gennym i gostau a buddion, sy'n cynnig gwersi i safleoedd presennol yn ogystal â safleoedd newydd.
 - Cyngor, megis Egwyddorion Cadwraeth Treftadaeth Lloegr, a ddatblygwyd i wella'r rheolaeth ar yr amgylchfyd hanesyddol yn gyffredinol ond hefyd bydd yn berthnasol i Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- 7.3 Mae'r camau allenn ni eu cymryd i wella'r ffordd y bydd ein safleoedd yn cael eu rhedeg yn cynnwys:
- mesurau sydd eisoes yn bodoli i wella'r warchodaeth ar Safleoedd Treftadaeth y Byd gan gynnwys canllawiau cynllunio cryfach a gweithdrefnau galw i mewn;
 - trefniadau rheoli cryfach a chyfnewid ar arfer da rhwng safleoedd fydd yn fwy systematig;

- strategaeth hyrwyddo ar y cyd, gyda'r Olympiad Diwylliannol yn darparu arddangosfa ar gyfer ein Safleoedd Treftadaeth y Byd; a strategaethau addysgol cryfach i godi ymwybyddiaeth ynghylch ein safleoedd ein hunain, o safleoedd ar draws y byd, ac o'r angen i ddiogelu Treftadaeth y Byd.

Diogelu

- 7.4 Nid yw Safleoedd Treftadaeth y Byd eto wedi dod yn ddynodiad statudol yn y DU. Gall rhannau o Safleoedd Treftadaeth y Byd fod yn ddynodedig ynddynt eu hunain, ond y prif fodd i'w diogelu fu drwy'r system gynllunio. Cafodd yr angen i awdurdodau lleol ymdrin â Safleoedd Treftadaeth y Byd fel ystyriaeth deunydd allweddol ei amlygu a gofynnwyd iddynt ddatblygu polisiau i ddiogelu eu Gwerth Byd-eang Eithriadol. Mae gan bob Safle Treftadaeth y Byd Gynlluniau Rheoli cydsyniol sydd hefyd yn darparu cefnogaeth arwyddocaol i'w diogelu a'u cadw.
- 7.5 Mae'r Llywodraeth wedi dal ar y cyfle drwy'r Adolygiad Diogelu Treftadaeth i ystyried a oes angen ffyrdd o ddiogelu ychwanegol ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd. Yn Lloegr daw'r Papur Gwyn 'Heritage Protection for the 21st Century', sy'n ymdrin â Lloegr a Chymru i'r casgliad bod achos i gael rhai newidiadau bach fydd yn egluro'n well, ac yn cryfhau diogeliadau cyfredol mewn rhai achosion, er bod y safleoedd TB ar y cyfan yn cael eu diogelu'n ddigonol. Yn y Papur Gwyn gwneir argymhellion penodol ar gyfer Lloegr gydag addewid mwy cyffredinol i newid y system mewn ffyrdd tebyg yng Nghymru.
- 7.6 Ym mis Ebrill eleni cyhoeddodd y Llywodraeth ddrafft o Fesur Diogelu Treftadaeth dros Loegr a Chymru gan gyflwyno'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer sefydlu system ddiogelu treftadaeth fwy unol a syml. Adlewyrcha'r Mesur bolisi'r Llywodraeth fel y mynegir ef yn y Papur Gwyn ac mae'n cynnwys tair egwyddor allweddol: dull unol o ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol; cyfleoedd gwell am gynhwysiant ac ymglymiad; gosod yr amgylchedd hanesyddol yng nghanol system gynllunio effeithiol. Bydd Safleoedd Treftadaeth y Byd yn derbyn cydnabyddiaeth statudol am y tro cyntaf drwy eu cynnwys o fewn Y Gofrestr o Asedau Hanesyddol unol a newydd sydd i'w sefydlu gan y Mesur Diogelu Treftadaeth, fyddai'n mynnu bod awdurdodau lleol yn cymryd Safleoedd Treftadaeth y Byd i ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
- 7.7 Cynhaliwyd archwiliad cyn-ddeddfwriaethol ar y Mesur Diogelu Treftadaeth gan Bwyllgor Dethol ym mis Gorffennaf. Cyhoeddodd y Llywodraeth ei ymateb i gasgliadau'r Pwyllgor ym mis Hydref a gobeithir cyflwyno'r Mesur cyn gynted â phosib, er bod hynny'n dibynnu ar argaeledd amser y Senedd.
- 7.8 Y mesurau eraill sydd ar gael i wella ar ddiogelu ein Safleoedd Treftadaeth y Byd drwy'r fframwaith cynllunio yw'r canlynol:
- fel rhan o adolygiad ehangach o'r Cyfarwyddiadau Galw i Mewn, cyflwynir hysbysiad penodol a gofynion galw i mewn ar gyfer datblygu sylweddol fyddai'n effeithio ar Safleoedd Treftadaeth y Byd. Cyhoeddir y Cyfarwyddiadau newydd yn fuan, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn gynt eleni.
 - cyhoeddwyd cylchlythyr cynllunio newydd i gyd-fynd â chanllawiau Treftadaeth Lloegr ar gyfer ymgynghoriad ym mis Mai 2008. Mae'r dogfennau hyn yn cydnabod ymhellach drwy bolisi cenedlaethol yr angen i ddiogelu safleoedd TB fel rhai o Werth

Byd-eang Eithriadol, pob un â chynllun rheoli, gan gynnwys, lle bo'r angen, ddarluniad o glustogfa neu debyg o'i gwmpas. Yn dilyn yr ymgynghoriad â'r cyhoedd, cyhoeddir y cylchlythyr a Nodyn Canllaw Treftadaeth Lloegr i gydfynd ag ef yn fuan.

- 7.9 Cynhyrchwyd canllawiau gyda chaniatâd y Llywodraeth ar adeiladau uchel ar gyfer Lloegr gan Dreftadaeth Lloegr a'r Comisiwn dros Bensaerniaeth a'r Amgylchedd Adeiledig.
- 7.10 Yn y blynyddoedd diwethaf mae Pwyllgor TB UNESCO wedi cymryd safiad yn erbyn datblygu cyfoes amhriodol, ac adeiladau uchel yn enwedig, a allai effeithio ar leoliadau safleoedd TB a buont yn ymweld â Llundain, Lerpwl, Caerfaddon a Chaeredin mewn ymateb i'r pryderon hyn.
- 7.11 Yn Lerpwl mae Pwyllgor TB UNESCO wedi codi materion tebyg ynghylch datblygu cyfoes. Gosodwyd amodau ar y STB adeg yr arysgrifio yn 2004 ynghylch uchder adeiladau newydd yn y STB; y cymeriad neu'r adeiladwaith a sut y gallai'r fath adeiladwaith ategu adeiladau hanesyddol. I ychwanegu at hynny, roedd yr ymweliad yn 2006 yn gofyn am eglurhad pellach ar Werth Byd-eang Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd Lerpwl i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac i'r rheiny'n gysylltiedig â dod â chynigion datblygu gerbron ac ymgynghori ehangach ar y cynigion hynny.
- 7.12 Mae'r penderfyniadau a'r casgliadau hyn o eiddo'r Pwyllgor TB yn dilyn eu hymweliadau yn arwydd o'r gofynion mwy caeth a osodir ar safleoedd TB. Y mae'r DU bellach yn ymateb iddynt, a bydd raid i unrhyw safleoedd sydd am wneud cais ymateb yn yr un modd.

Rheoli

- 7.13 Fel y dangoswyd ym Mhennod 2, mae'r cyfrifoldeb dros reoli Treftadaeth y Byd wedi'i wasgaru ac mae'n adlewyrchu'r cyfrifoldebau cyfrannol dros reoli treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn fwy cyffredinol.
- 7.14 Awgrymodd yr adrodd cyfnodol dros y DU yn 2004 a 2005 bod lle i wella yn y ffordd y rheolir Treftadaeth y Byd, o gofio:
- bod diffyg integreiddio rhwng treftadaeth naturiol a diwylliannol;
 - bod y sail sgiliau weithiau yn wan neu'n bytiog; a
 - bod angen gwell cydgysylltiad rhwng safleoedd.
- 7.15 Daeth dadansoddiad cost budd PwC i'r casgliad bod y trefniadau llywodraethu a rheoli'n amrywio'n sylweddol ar draws yr holl safleoedd a bod hyn yn dylanwadu llawer ar faint y costau. Tra'i bod yn angenrheidiol bod pob safle yn diffinio'r trefniadau sy'n iawn iddynt hwy, byddai bod â dealltwriaeth fwy cyflawn o'r trefniadau gwahanol sydd mewn bod, a'r modd y bydd y rhain yn effeithio ar allu'r rheolwyr i weithredu'n economaidd, yn effeithlon ac effeithiol o fudd.

- 7.16 Er mwyn cryfhau rheolaeth a darparu mwy o gymorth a chefnogaeth i safleoedd unigol rydym am gynnig:
- gwell eglurder ynghylch llinellau cyfrifoldeb a sut y rhennir hwy a/neu sut y datganolir hwy (e.e. rhwng gweinyddiaethau sy'n cymryd rhan, rhwng adrannau'r llywodraeth, rhwng llywodraeth ganol a lleol, a rhwng asiantaethau treftadaeth naturiol a diwylliannol)
 - cydweithio mwy agos rhwng adrannau a dull mwy cysylltiedig o ymdrin â Threftadaeth y Byd fel rhan o strategaeth ryngwladol ehangach y llywodraeth
 - gwell gwefan er mwyn gwella ar gynnig gwybodaeth/cyfathrebiadau ar ddatblygiadau UNESCO/PTB a rhannu arfer gorau ac ymchwil
 - rhwydwaith gryfach i rannu a dysgu o brofiad, a mynd ar ôl nodau/pryderon megis datblygiad cymwys, cyfathrebiadau, sgiliau, cydweithrediad rhyngwladol, gwerthuso a risg.
- 7.17 Gallai'r rhwydwaith hefyd archwilio ffyrdd o gyfathrebu arfer gorau o Safleoedd Treftadaeth y Byd i'r gymuned dreftadaeth ehangach. Os mai ystyr statws Safle Treftadaeth y Byd yw'r hyn a wna safleoedd allan ohono, mae'n dilyn y dylai llawer o'r buddion fod ar gael i leoedd nad ydynt yn STB ond yn barod i ddilyn strategaethau tebyg gan gynnwys:
- adnabod gwerth y safle a'i arwyddocâd i bobl leol;
 - llunio cynllun rheoli effeithiol;
 - edrych ar y safle'n ei gyfanrwydd gan gynnwys cadwraeth, twristiaeth a'r cyhoedd;
 - cydnabod amryfal feysydd cyfrifoldeb a ffurfio partneriaethau effeithiol drwy gyfrwng grŵp llywio cryf;
 - ymglymu'r gymuned wrth wneud penderfyniadau ac adeiladu consensws.

Cyllido

- 7.18 Mae'n anghywir i gymryd yn ganiataol y bydd statws Safle Treftadaeth y Byd ynddo'i hun yn paratoi llwybr awtomatig at gyllido ychwanegol. Gall safleoedd sydd eisoes yn enwog ei chael hi'n anodd denu cyllid ychwanegol ar sail statws Treftadaeth y Byd. Bydd y partneriaethau cryf sydd eu hangen i fynd ar ôl a chynnal statws o'r fath fodd bynnag, yn darparu'r amgylchedd ar gyfer dod â chyllid posib at ei gilydd o amrywiaeth eang o ffynonellau.
- 7.19 Mae'r dadansoddiad cost budd a gynhaliwyd gan PwC yn awgrymu:
- Sicrhau bod gan bob safle gydlynnydd STB llawn amser a bod cyllid creiddiol ar gael yn barhaus. Bydd hynny'n sicrhau bod amser y cydlynnydd yn mynd ar reoli'r safle yn hytrach na llenwi ceisiadau am gyllid ar gyfer y dyfodol.
 - Bydd trefniadau perchnogi cymhleth sy'n cynnwys partneriaid lluosog yn cynyddu'r costau cysylltiedig ag amser partner a staff, ond hefyd yn cynyddu'r cyfle i gynnwys partneriaid yn y broses o gyllido'r safle, a gall arwain at ffynonellau incwm ychwanegol, yn bennaf o'r sector preifat.
 - Lle bydd safleoedd dan berchnogaeth unigol, yn aml bydd y cyfle ar gael i ennill incwm oddi wrth ymwelwyr, gan ganiatáu i gyllid preifat gael ei ddefnyddio i gefnogi diogelu a gwarchod y safle.

- Dylai safleoedd barhau i weithio i alinio buddion statws STB yn fwy agos gyda'r sector preifat ac annog ariannu gan y sector preifat yn yr achosion hynny lle bydd hynny'n bosib.

7.20 Dylai safleoedd â diddordeb mewn mynd ar ôl statws Safle Treftadaeth y Byd yn gyntaf ystyried a allent sicrhau bod cyllid sylfaenol ar gael ar gyfer costau cydlynu.

Hyrwyddo

7.21 Bydd Confensiwn Treftadaeth y Byd yn anelu at godi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r angen i warchod treftadaeth ddiwylliannol a naturiol; gwella swyddogaeth Treftadaeth y Byd ym mywyd y gymuned; a chynyddu cyfranogiad poblogaethau lleol a chenedlaethol yn y weithred o ddiogelu a chyflwyno treftadaeth.

Codi ymwybyddiaeth

7.22 Anogir Pleidiau Gwladwriaethau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ddiogelu Treftadaeth y Byd. Yn arbennig, dylent sicrhau y bydd statws Treftadaeth y Byd wedi'i nodi a'i hyrwyddo'n ddigonol ar y safle.

7.23 Nid oedd yr ymarfer cyflwyno adroddiad cyfnodol a gynhaliwyd yn 2004 o'r farn bod y cyflwyno a'r ymwybyddiaeth gyffredinol ynghylch diogelu a chadw Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y DU yn ddigonol.

7.24 Yn eu hastudiaeth darganfyddodd PwC bod y defnydd o statws STB mewn marchnata a brandio yn gymysg, gyda rhai safleoedd yn ymddangos fel eu bod yn ei ddefnyddio'n fwy helaeth nag eraill. Fel y dengys eu hastudiaethau achos, mae rhai safleoedd wedi mabwysiadu dull yn llawn dychymyg allai ddarparu model i safleoedd eraill ei ddilyn. Ymddengys bod safleoedd sy'n gymharol llai gwybyddus yn fwy tebygol o ddefnyddio'u gweithgareddau marchnata a phrofi codiad uwch mewn gwerth brand. O ran safleoedd eraill, gall methiant i hyrwyddo statws Safle Treftadaeth y Byd fod yn ddewis bwriadol yn hytrach nac esgeulustod. Ym marn y safleoedd hyn nid yw statws safleoedd STB a 'treftadaeth' mewn cyd-destun ehangach yn gweddu i'r ddelwedd y dymunant ei chreu.

7.25 Mae rhai safleoedd wedi'i chael hi'n anodd dehongli canllawiau UNESCO ar y defnydd o logo Treftadaeth y Byd a gwelir bod cyfleoedd yn cael eu colli oherwydd pryderon dros dorri rheolau. Mae'r DCMS a nifer o safleoedd unigol wedi cynhyrchu canllawiau brandio yn egluro'r rheolau ar gyfer defnyddio'r logo gan awgrymu lle y gellid ei ddefnyddio. Efallai y bydd cyhoeddi canllawiau fel hyn ar wefan gyfrannol yn cynorthwyo safleoedd eraill i wneud defnydd mwy effeithiol o'r logo mewn cyhoeddiadau a gweithgareddau marchnata.

7.26 Awgrymir ambell waith bod gwledydd eraill yn fwy effeithiol na'r DU am hyrwyddo'u Safleoedd Treftadaeth y Byd, a bod angen strategaeth hyrwyddo ar y cyd i hyrwyddo safleoedd o fewn y DU yn fwy effeithiol. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu mai effaith ymylol iawn a gaiff STB ar gymhellion ymwelwyr ac os mai'r nod yw cynyddu

niferoedd ymwelwyr, mae'n debygol bod ffyrdd mwy cost effeithiol o gyrraedd y nod hwn. Ar y mater ehangach o godi ymwybyddiaeth, fodd bynnag, ymddengys bod lle i safleoedd weithio'n fwy effeithiol, yn annibynnol ac ar y cyd, i godi ymwybyddiaeth o Dreftadaeth y Byd yn y DU ac ar led. Yn benodol, awgryma'r dystiolaeth y gall dealltwriaeth o arwyddocâd diwylliannol y safleoedd hyn gynyddu synnwyr balchder, hunaniaeth a pherthyn pobl, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae safleoedd yn amlwg yn llai 'enwog'.

7.27 Mae camau posib yn cynnwys:

- Safleoedd i rannu arfer gorau ar hyrwyddo a dehongli
- Gwefannau mwy hygyrch ar Dreftadaeth y Byd â chyd-lywio rhwyddach rhyngddynt
- Canllawiau gwell ar y defnydd o logo Treftadaeth y Byd
- Cydlynïad gwell rhwng safleoedd lle bydd cyfleoedd yn codi o gyd-hyrwyddo, er enghraifft, mewn perthynas ag Olympiad Diwylliannol 2008-12.

7.28 Gellid mynd â materion ymlaen drwy'r rhwydwaith cryfach ar gyfer rhanddeiliaid Treftadaeth y Byd a gynigiwyd yn flaenorol yn y bennod hon.

Balchder dinesig a chyfalaf cymdeithasol

7.29 Ni ddaeth PwC o hyd i ddim yn y 6 safle a ddewiswyd i awgrymu bod balchder dinesig yn awtomatig yn cynyddu'n uniongyrchol fel canlyniad ennill statws Treftadaeth y Byd, ond ymddengys ei fod yn creu rhyw sêl ansawdd ar gyfer lleoliad a'i arwyddocâd diwylliannol. Mae Blaenafon yn esiampl eithriadol o sut y gellir cyflawni'r fath gynnydd mewn balchder dinesig.

7.30 Ar draws y chwe safle astudiaeth achos a archwiliwyd, roedd pob un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy o'r farn bod statws STB yn acolâd pwysig fyddai'n cynhyrchu rhyw ymdeimlad o falchder lleol, ond roedd maint hyn yn amrywio o safle i safle. Ymddengys bod cymeradwyo ansawdd yn fwy pwysig i'r safleoedd hynny sydd yn llai enwog.

7.31 Ymddengys bod balchder yn uwch ymhlith unigolion o wreiddiau ethnig gwyn (81%) na'r rheiny o leiafrifoedd ethnig ar y cyd (75%) a'r gyfran isaf ymhlith grwpiau ethnig Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (57%). Roedd yn gyffredinol uwch ymhlith Cristnogion (81%) na holl enwadau eraill ar y cyd (77%).

7.32 Bydd natur y safle hefyd yn penderfynu a oes balchder lleol ynddo neu beidio. Awgryma PwC yr edrychir ar Gestyll Edward I yng Nghymru weithiau mewn ffordd negyddol fel symbol o feddiant a gormes estron.

7.33 Lle bydd safleoedd megis Parc Brenhinol Studley gan gynnwys Abaty Fountains eisoes wedi bod â swyddogaeth bwysig yn y gymuned leol, ystyriwyd bod y budd dinesig a ddeilliai o statws STB yn llawer mwy cyfyngedig.

7.34 Mae tystiolaeth y gall statws STB, i rai grwpiau, fod o gymorth i adeiladu cyfalaf cymdeithasol drwy hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol mewn cymunedau a chreu ymdeimlad o hunaniaeth gymunedol. Er enghraifft, roedd y gyfran uchaf a gytunai bod STB yn darparu cwlwm cyffredin gyda'r gymuned leol a mwy o gyfleoedd i gyfarfod pobl leol eraill dros 70 a'r rheiny'n dioddef o anabledd tymor hir.

7.35 Gall safleoedd unigol ei chael hi'n werthfawr i:

- werthuso’u heffaith ar gymunedau lleol, archwilio’u heffeithiolrwydd mewn codi ymwybyddiaeth, balchder dinesig a chydlynid cymdeithasol;
- rhannu arfer gorau gyda safleoedd eraill; ac
- ystyried a oes mesurau pellach y gallent eu cymryd i gynyddu’r buddion posib.

Addysg

- 7.36 Awgrymwyd yn ein hymarfer Adrodd Cyfnodol 2004 ein bod yn cynyddu ymwybyddiaeth o addysg Treftadaeth y Byd a lledaenu arfer gorau.
- 7.37 Darperir enghreifftiau o arfer gorau yn astudiaethau achos y PwC. Fodd bynnag yn ôl y PwC, er bod gan y chwe safle astudiaeth achos raglenni gweithgaredd addysgol wedi’u datblygu’n dda, gan gynnwys yn aml weithgareddau ar gyfer plant ysgol a rhaglenni galwedigaethol, ym mhob achos roedd y gweithgareddau hyn yn bod cyn eu harysgrifio fel Safleoedd Treftadaeth y Byd. Ar un safle (Parc Brenhinol Studley) roedd strategaeth addysgol wedi’i ddatblygu fel rhan o’r cynllun rheoli ac ar un arall (arfordir Dorset a Dwyrain Dyfnaint) arweiniodd ei sefydlu fel STB at apwyntio swyddog addysgol pwrpasol. Ond allan o’r chwe astudiaeth achos, dim ond un safle (Blaenafon) oedd naill ai’n rhedeg neu â chynlluniau i redeg rhaglen addysgol oedd yn benodol gysylltiedig â Threftadaeth y Byd.
- 7.38 Nodir gan PwC bod safleoedd, fel rhan o gynlluniau rheoli yn cael eu hannog i sefydlu strategaeth ymchwil i gefnogi ymchwil i wella dealltwriaeth a dehongliad. Darganfuwyd bod y gweithgaredd hwn yn bytiog ar draws y safleoedd a thra bod rhai wedi mynd ymlaen i gynnwys strategaeth dehongli a strategaethau dysgu ac addysgol a’u cysylltu â deilliannau a nodau penodol; roedd eraill ond wedi darparu cynlluniau syml. Awgrymir felly pe byddai dulliau mwy cynhwysfawr yn cael eu harfer yn y maes hwn, byddai’n sicrhau bod y buddion dysgu ac addysgol a gysylltir â’r safleoedd hyn yn cael eu mwyaflu a gosod Treftadaeth y Byd yn ganolbwynt i’r gweithgaredd hwn.
- 7.39 Gallai Safleoedd Treftadaeth y Byd hefyd godi eu proffil mewn ysgolion drwy ‘*Engaging Places*’, menter ar y cyd rhwng DCMS/DCFS i gynorthwyo ysgolion i ddatgloi potensial adeiladau lleol, lleoedd a mannau gwag yn yr amgylchedd adeiledig. Gan wneud ysgolion yn fwy ymwybodol o’r hyn y gellir ei gyflawni drwy gysylltu ag adeiladau a lleoedd, bydd ‘*Engaging Places*’ yn dwyn ynghyd amrediad eang o ddarparwyr addysg dysgu amgylcheddol, fel y gall ysgolion ddarganfod pam bod adeiladau a lleoedd yn bwysig, a pha wasanaethau ac adnoddau sydd ar gael yn lleol.

Pennod 8: Asesiad effaith cydraddoldebau

- 8.1 Bydd gofyn i unrhyw adran o'r Llywodraeth, wrth ystyried ffurfio polisiau newydd, asesu'r polisiau hyn yn erbyn nifer o 'brofion effaith penodol' fel rhan o 'asesiad effaith'. Gall canlyniadau'r asesiad fod yn rhan bwysig o sut y bydd y llywodraeth yn penderfynu rhwng opsiynau polisi gwahanol. Gellir gweld yr asesiad effaith sy'n perthyn i'r opsiynau polisi a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghorol yn www.culture.gov.uk/Reference_library/Consultations/2008_current_consultations/cons_worldheritagepolicy.htm.
- 8.2 Mewn perthynas â dyletswyddau penodol dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau, byddem yn croesawu sylwadau ar y graddau y gallai'r modd yr ydym yn adnabod, gwarchod, rheoli a hyrwyddo Safleoedd Treftadaeth y Byd gyfrannu at gyfle cyfartal ym meysydd:
- Anabledd
 - Hil
 - Cenedl
- 8.3 Rydym hefyd yn benodol yn gwahodd sylwadau gan gyrff o fewn y DU sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb a hawliau dynol.
- 8.4 Yn ogystal, yng nghyswllt effaith posib yr opsiynau polisi ar ardaloedd gwledig, rydym yn ymgynghori'n benodol ynghylch a oes angen addasu polisiau arfaethedig o bosib er mwyn diwallu anghenion ac amgylchiadau gwledig penodol, gan wahodd sylwadau gan ystod o gyrff perthnasol.

Pennod 9: Y camau nesaf a sut i ymateb

Y camau nesaf

Yn ychwanegol i osod allan ein cynigion ar gyfer adnabod, gwarchod a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd, mae'r papur ymgynghorol hwn yn gofyn am farn mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol:

Cwestiwn 1: O ddeall y ffactorau a gyflwynwyd gennym yn y ddogfen hon, pa un o'r opsiynau canlynol ddylem ni ei ddewis wrth ymdrin ag enwebu safleoedd ar gyfer Statws Treftadaeth y Byd?

- Parhau i enwebu'n flynyddol o'n Rhestr o Gynigion presennol;
- Gohirio enwebiadau newydd am gyfnod;
- Llunio Rhestr Cynigion fyrrach sydd â ffocws mwy pendant iddi, gosod bylchau o ran amser fel nad ydym o reidrwydd yn cynnig safle newydd bob blwyddyn a chyflwyno proses gais dau gam i hidlo allan yn gynnar y safleoedd hynny nad ydynt yn debygol o fod yn llwyddiannus (ein hoff opsiwn); a/neu
- Ystyried dynodiadau eraill megis Rhestr Treftadaeth Genedlaethol neu'r label Treftadaeth Ewropeaidd.

Cwestiwn 2: Pa fesurau pellach y dylid eu hystyried er mwyn gwella'r modd y bydd ein Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cael ei rheoli a'u hyrwyddo?

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion at: [Caity Marsh yn `whreview@culture.gsi.gov.uk`](mailto:Caity.Marsh@culture.gsi.gov.uk)

Neu at y

Culture Team (World Heritage),
Department for Culture, Media and Sport,
2-4 Cockspur Street, London SW1Y 5DH

I gyrraedd erbyn 24 Chwefror 2009

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y DCMS a thrwyddi gellir anfon ymatebion hefyd:
www.culture.gov.uk.

Gallwch ddod o hyd i fforwm gwefan (<http://dcms-sp2007:8003/>) ar wefan y DCMS lle gallwch gyflwyno'ch barn ar rai agweddau o bolisi Safle Treftadaeth y Byd y DU.

Onibai bod atebydd yn gwneud cais i'r gwrthwyneb, bydd pob ymateb ar gael i'r cyhoedd allu eu harchwilio.

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan y DCMS.

Atodiad A: Cod ymarfer ar ymgynghoriadau

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â Chod Ymarfer y Llywodraeth ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2004.

Mae'r Codau a'r meini prawf ar gael ar wefan yr Adran Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddiad yn <http://bre.berr.gov.uk/regulation/consultation/code/index.asp>.

Y canlynol yw'r chwe maen prawf sy'n berthnasol i'r ymarfer hwn:

1. Ymgynghori'n eang drwy gydol y broses, gan ganiatáu lleiafswm o 12 wythnos ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod cyfnod datblygu'r polisi.
2. Bod yn glir ynghylch beth yw eich cynigion, ar bwy y byddant yn effeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer derbyn ymatebion.
3. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno ac ar gael i ystod eang o bobl.
4. Rhoi adborth i'r ymatebion a dderbyniwyd a sut y dylanwadodd y broses ymgynghori ar y polisi.
5. Monitro effeithiolrwydd eich adran adeg yr ymgynghoriad, gan gynnwys y defnydd o gydlynnydd ymgynghori dynodedig.
6. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn arfer gorau rheoleiddio gwell, a chynnwys cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol os yn briodol.

ATODIAD B: Fformat cyflwyno Rhestr Cynigion

PLAID GWLADWRIAETH:

DYDDIAD CYFLWYNO:

Y Cyflwyniad wedi'i baratoi gan:

Enw:

E-bost:

Cyfeiriad:

Ffacs:

Sefydliad:

Rhif ffôn:

Enw'r Eiddo:

Gwladwriaeth, Talaith neu Ranbarth

Hydred a Lledred, neu gyfesurynnau UTM:

DISGRIFIAD:

Cyfiawnhad o Werth Byd-eang Eithriadol:

(Adnabyddiaeth ragarweiniol o werth yr eiddo sy'n teilyngu arysgrifiad ar Restr Treftadaeth y Byd)

Y meini prawf a fodlonir [gweler Paragraff 77 o'r *Canllawiau Gweithredo*]:

(Ticiwch y blwch sy'n cyfateb i'r meini prawf arfaethedig a rhowch gyfiawnhad dros y defnydd o bob un isod)

(i)

(ii)

(iii)

(iv)

(v)

(vi)

(vii)

(viii)

(ix)

(x)

Datganiad o ddilysrwydd a/neu gywirdeb [gweler Paragraffau 78-95 y *Canllawiau Gweithredo*]:

Cymhariaeth gydag eiddo tebyg arall:

(Dylai'r gymhariaeth amlinellu nodweddion sy'n debyg i eiddo arall/eraill sydd ar Restr Treftadaeth y Byd neu'n wahanol, a'r rhesymau sy'n gwneud i'r eiddo sefyll allan)

ATODIAD C: Canllaw i safleoedd sydd am ymgeisio (detholiad o adroddiad PwC)

Ffigur 2: Canllaw cryno

1. Pam ydym ni am fod yn Safle Treftadaeth y Byd?

- Dylai safleoedd sy'n cynnig ystyried beth y gobeithiant amdano o ennill statws STB ac yn benodol p'un ai a yw'r cynigion hyn yn cysylltu'n glir â Chonfensiwn Treftadaeth y Byd neu beidio. Os bydd yr amcanion hyn yn perthyn i gadwraeth, addysg, dealltwriaeth neu nodau cymdeithasol, yna gallent fod yn gweddu'n dda. Os bydd yr amcanion hyn yn perthyn i nodau adfywio, economaidd neu dwristiaeth, yna ni fydd y rhain mor berthnasol i Dreftadaeth y Byd, ac yn wir gall bod dulliau mwy deniadol o gyflawni'r buddion hyn.

2. A yw'n bosib i ni ei gyrraedd?

- Dylai trafodaethau â'r DCMS a/neu asiantaethau treftadaeth perthnasol, yn ogystal â chyfeiriad at y Pwyllgor Treftadaeth Byd, ICOMOS ac IUCN gynnig dealltwriaeth dda i safleoedd o'r tebygolrwydd o lwyddo neu beidio, yn arbennig mewn perthynas â meini prawf Gwerth Byd-eang Eithriadol ac i ba raddau y gallai safleoedd lenwi bylchau yn y Rhestr Treftadaeth Byd. Nid yw ansawdd esthetaid y ddogfen enwebu yn ystyriaeth.

3. Beth fydd y gost wrth gynnig?

- **Ymrwymiadau amser**- Gan ddilyn system enwebu gyfredol y DU, bydd raid i gynigion yn gyntaf ennill eu lle ar Restr Cynigion y DU, ac yna cyrraedd Pwyllgor UNESCO er mwyn cael eu cymeradwyo. Yn ddiweddar ar gyfartaledd, mae wedi cymryd 5 mlynedd i dderbyn cymeradwyaeth.
- **Cymhlethdod y safle a'r ddogfen enwebu** – Mae ein hymchwil yn awgrymu y byddai angen partneriaeth fwy o faint i ddatblygu'r cynnig ar y safleoedd hynny sy'n fawr a chymhleth o ran eu perchnogaeth. 13 yw'r rhif cyfartalog o bartneriaid ynghlwm wrth safleoedd ond ar gyfer safleoedd mawr neu safleoedd dan berchnogaeth luosog neu awdurdod, gall nifer y partneriaid ynghlwm fod cynifer â 70. Gellir disgwyl i'r cyfranogiad ynghlwm wrth y cais gostio £200k ar gyfartaledd mewn amser staff yn ystod y broses o gynnig. Bydd y costau'n debygol o fod yn llai i'r safleoedd sydd ag un perchennog neu lond llaw yn unig. Gall y bydd costau ychwanegol os bydd gofyn am astudiaethau ar gadwraeth, twristiaeth neu arall, a gall y rhain gostio rhwng £20-£80k yr un.
- **Y cynllun rheoli**- Gofynnir i enwebiadau newydd ddatblygu cynllun rheoli ar gyfer y safle. Bydd hwn yn darparu asesiad mwy cynhwysfawr o'r safle i ddibenion rheoli a chadwraeth, sydd yn fudd o bwys ynddo'i hun heb ystyried canlyniad y cais. Fodd bynnag, gellir disgwyl iddo gostio rhwng £200-£250k mewn amser staff ac adnoddau.
- **Y gost gyflawn**- O'n hymchwil amcangyfrifir bod cyfanswm y gost o gynhyrchu cynnig i gyrraedd pwyllgor UNESCO am gymeradwyaeth rhwng £420 and £570k.

- **Pwy sy'n talu?** – Nid oes cyllid llywodraeth ganol ar gael oddi wrth y DCMS a thra bod Treftadaeth Lloegr, 'Historic Scotland', Cadw, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Defra, 'Natural England' ac eraill wedi darparu peth cefnogaeth i safleoedd penodol, yn amodol ar amgylchiadau'n lleol, gall cynigion sy'n mynd yn eu blaenau ddisgwyl gorfod dod o hyd i gyllid o ffynonellau lleol neu ranbarthol. Y ffynonellau hyn fel arfer yw'r Awdurdod Lleol neu mewn achosion diweddar yr Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol. Yn yr Alban a Chymru fel arfer cymerir rhan fwy blaenllaw gan 'Historic Scotland' neu Cadw lle bydd y cynigion yn ddilys.

4. Faint fydd y gost i ni reoli'r safle?

- Perchnogaeth a chymhlethdod y safle a'r strwythur llywodraethu a fabwysiedir- Gellir disgwyl i safleoedd mawr a mwy cymhleth dan berchnogaeth luosog fod angen mwy o adnoddau i reoli ac yn costio mwy o'r herwydd. Drwy ein hymchwil, rydym wedi nodi pedwar strwythur llywodraethu gwahanol a phob un â chost rheoli cyfatebol gwahanol. Mae'r grŵp mwyaf o Safleoedd Treftadaeth Byd y DU yn dod o fewn y modelau llywodraethu 'cydlynedd' neu 'heb gydlynedd' a bydd y safleoedd hyn yn costio rhwng £100-£215k y flwyddyn i'w rheoli. Ar gyfer safleoedd llai, mwy annibynnol â threfniadau perchnogaeth arbennig ganddynt, er enghraifft dan berchnogaeth yr Eglwys neu'r Goron, mae'r safleoedd yn debygol o fod dan reolaeth dda'n barod ac yn yr achosion hyn mae'r costau rheoli yn debygol o fod rhwng £13-£26k y flwyddyn. Mae'n dasg llawer mwy anodd rheoli safleoedd mwy sydd dan berchnogaeth gymhleth iawn fel Trefi hen a newydd Caeredin neu arfordir Dorset a Dwyrain Dyfnaint a bydd angen mwy o staff i ymgymryd â'r cyfan yn effeithiol. Yn y lleoliadau hyn, gall y costau rheoli fod cymaint â £190-£615k.
- Enwogrwydd y safle- Os bydd y safle eisoes yn enwog, yna gall ei fod yn denu nifer arwyddocaol o dwristiaid yn barod, a gall y bydd cyfle i ariannu'r costau rheoli yn rhannol neu'n gyfangwbl allan o'r incwm ymwelwyr. Gall hyn yn aml ofyn am fuddsoddiad ategol amlwg, er enghraifft, datblygu canolfan ymwelwyr neu wella mynediad a pharcio i roi anogaeth i ddenu mwy o ymwelwyr. Mae ein hymchwil yn dangos bod yr effaith gaiff statws STB yn ymylol iawn ar gymhelliant, ac ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd bod ennill statws STB yn awtomatig yn denu ymwelwyr ychwanegol. Dylai safleoedd sy'n cynnig fod yn ymwybodol o hyn.
- Natur yr ased treftadaeth a'i berthnasedd i randdeiliaid ehangach- Bydd maint y gost yn lleol yn cael ei benderfynu'n bennaf gan allu'r safle i gael gafael mewn cyllid o ffynonellau eraill i gefnogi rheoli'r safle. Bydd gweithgaredd partneriaeth yn chwarae rôl bwysig i sicrhau unrhyw gyllid ychwanegol.
- Pwy sy'n talu?- Fel gyda chostau cynnig, Awdurdodau Lleol sy'n bennaf ysgwyddo costau rheoli yn Lloegr gyda pheth mewnbyn oddi wrth sefydliadau eraill a restrwyd yn flaenorol. Yn yr Alban a Chymru mae buddsoddiad o gyfeiriad HS a Cadw yn aml yn fwy arwyddocaol.

5. Pa fuddion fyddem ni'n cael o gynnig?

- Hyd yn oed os na fydd cynigion yn llwyddo i ennill Statws Treftadaeth y Byd, gall y daith ei hun ddarparu rhai buddion, yn bennaf yn nhermau partneriaeth, cadwraeth drwy'r cynllun rheoli ac o bosib drwy gyllid ychwanegol. Bydd y broses gynnig yn gofyn am bartneriaeth, a all yn ei dro ddarparu mynediad at ystod fwy amrywiol o ddarparwyr cyllid posib. Ymhellach bydd creu cynllun rheoli, yn aml am y tro cyntaf, yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o sut y dylid rheoli'r safle. Yn bwysig iawn bydd cyflawni'r buddion hyn yn dibynnu ar y gweithgareddau cyfredol. Os oes gan y safleoedd bartneriaethau lleol, cyhoeddus a phreifat, yna mae'n bosib na fydd y broses gais yn effeithio llawer ar y rhain na chynhyrchu cyfleoedd am gyllid ychwanegol, ac os bydd y safle dan berchnogaeth sengl neu arbennig, gall y bydd cynllun rheoli a chadwraeth eisoes yn ei le.

6. Pa fuddion fyddem ni'n cael o ddynodiad STB?

- **Partneriaeth**- Dywedir bod statws STB yn cynyddu lefel o weithgaredd partneriaeth drwy'r cyfnod ymgynghori, sy'n angenrheidiol i greu a chyflawni gofynion y cynllun rheoli. Bydd hyn yn naturiol yn dibynnu ar faint y gweithgaredd partneriaeth cyn i'r safle ennill statws STB. Os oedd partneriaethau cryf yn bodoli cyn statws STB, yna gallwn ddisgwyl mai cyfyngedig fydd y buddion.
- **Cyllid ychwanegol**- Fel canlyniad o ennill statws STB, a thrwy'r ystod amrywiol o bartneriaid ynghlwm, mae'n debyg yr edrychir ar y safle mewn modd mwy ffafriol, yn enwedig gan ffynonellau cyllid seiliedig ar gadwraeth, treftadaeth a chymuned a, chan ddibynnu ar amrywiaeth o ystyriaethau eraill, ymddengys bod y ffynonellau hyn yn aml yn buddsoddi arian cyhoeddus ychwanegol yn y safle. Eto bydd hyn yn dibynnu ar faint y buddsoddiad presennol, ond dyma un o'r meysydd budd mwy arwyddocaol ddaw yn sgil statws STB, ond ar lefel leol neu ranbarthol yn unig.
- **Cadwraeth**- Gall y cyllid ychwanegol ddaw yn sgil statws STB wella lefelau cadwraeth ar y safleoedd hynny nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n dda gan y trefniadau rhestru presennol, ond gellir disgwyl llai o werth lle bydd lleoliadau eisoes dan warchodaeth gryfach. Ar hyn o bryd nid yw statws STB yn effeithio ar y system gynllunio a thra bydd cynnydd mewn cyhoeddusrwydd weithiau'n darparu mwy o graffu ar geisiadau cynllunio gan ddylanwadu ar radd ac ansawdd datblygu lleol, ychydig iawn o effaith gaiff y system gynllunio ar y cyfan. Dylai'r dilyniant i'r Adolygiad Gwarchod Treftadaeth gryfhau sefyllfa Safleoedd Treftadaeth y Byd o fewn y system gynllunio yn y dyfodol.
- **Twristiaeth**- Awgrymir bod statws STB yn darparu mantais hyrwyddo ac 'effaith brandio' all annog mwy o ymwelwyr. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos mai ond ychydig o effaith sy'n debygol o ddigwydd (c.0-3%) a bydd yr effaith yn fwy mewn safleoedd llai 'enwog'. Yn fwy na hynny, os nad oes gan safleoedd rwydwaith mewnol digonol yn barod, a heb gael eu marchnata'n effeithiol nac wedi'u cysylltu'n dda ar hyn o bryd â llwybrau twristiaeth cyffredin y DU, yna mae'n annhebygol y byddant yn denu llawer o ymwelwyr ychwanegol. Ar ei ben ei hun mae'n afresymol disgwyl i statws STB arwain at ddenu mwy o ymwelwyr.
- **Adfywio**- Tybir bod statws STB yn gatalydd i adfywio, yn bennaf drwy symbylu buddsoddiad newydd, mudo mewnol a mwy o dwristiaid. Dim ond un enghraifft sydd lle y digwyddodd hyn ar draws ein hastudiaethau achos a hyd yn oed yn y lleoliad hwn roedd ffactorau eraill ynghlwm yn y newid hwn a lefel sylweddol o fuddsoddiad cyhoeddus.
- **Balchder dinesig**- Mae dystiolaeth gref bod statws STB yn darparu mecanwaith ar gyfer adeiladu hyder lleol a balchder dinesig ac ymddengys bod hwn yn faes budd o bwys. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar yr amrywiaeth o fewn y boblogaeth leol, natur yr ased a'r hyn y mae'n golygu i'r boblogaeth. Er enghraifft mae Cestyll Edward I yng Nghymru yn Safleoedd Treftadaeth y Byd ond cânt eu gweld gan rai pobl leol fel symbol o ormes dan law'r Saeson.
- **Cyfalf cymdeithasol**- Caiff statws STB ei gydnabod hefyd fel mecanwaith ar gyfer mwy o unoliaeth a chydlynid cymdeithasol drwy gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio a chyswllt o fewn y gymuned leol, ac unwaith eto gall y buddion hyn fod o bwys. Fodd bynnag, gall y buddion hyn fod yn fwy arwyddocaol ymhlith mwyafrif ethnig a chrefyddol yr ardal, nac ymhlith grwpiau lleiafrifol.
- **Addysg a dysgu**- Ystyrir bod statws STB yn offeryn ar gyfer hybu dysgu ac ymddengys bod rhywfaint o ddysgu a thwf gwybyddol yn cymryd lle yn y safleoedd, sydd â statws STB. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o safleoedd y DU yn asedau addysgol pwysig cyn iddynt ennill statws STB, a bydd maint y budd yn y maes hwn yn dibynnu ar i ba raddau y gall y safle integreiddio'r statws STB i mewn i weithgareddau dysgu a chyrraedd amrywiaeth eang o grwpiau.